

## Croeso i drigolion lleol...

## ... ond gwahardd 'digwyddiadau' o Goed Fictoria



Mae Coed Fictoria, Llanberis wedi eu prynu gan Steffan Roberts, Caffi Pen Ceunant, ac y mae gwarchodaeth y coed yn flaenoriaeth ganddo. I'r perwyl hwnnw, mae wedi gwahardd cwmniau masnachol sy'n elwa o gynnal rasys eithafol rhag defnyddio'r llwybr drwy'r coed. Mae pryder cynyddol ynglŷn â'r difrod a wneir gan y cannoedd o redwyr a beicwyr sy'n cael eu denu i'r ardal i gymryd rhan yn y cystadlaethau eithafol hyn, ac nid Coed Fictoria yw'r unig dir sy'n cael ei effeithio.

Ar y llaw arall, mae Steffan yn cydnabod fod llwybr cyhoeddus drwy'r goedwig, ac yn sicrhau'r trigolion lleol - a hynny'n groes i rai sibrydion sydd ar led - nad yw'n fwriad ganddo i geisio'i ddi-ddymu. Yn wir, mae am wneud yn hollol eglur ei fod yn croesawu cerddwyr a rhedwyr lleol sy'n defnyddio'r llwybr i fwynhau'r amgylchedd neu i ymarfer. Ond ni all beicwyr ei ddefnyddio gan mai llwybr cyhoeddus ydyw, ac yn gyfreithiol, nid oes hawl beicio ar lwybrau o'r fath.

## Croeso hefyd i'r wiwer goch

Yn sgil y newyddion hyn am y bwriad i warchod y coed, mae Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru wedi datgan fod y wiwer goch wedi ei gweld o fewn y coed, a hynny, yn swyddogol, am y tro cyntaf ers 1970. Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen rheoli gwiwerod llwyd mewn coetiroedd lleol a hybu poblogaethau'r gwiwerod coch. Cadarnhaodd llefarydd ar ran yr Ymddiriedolaeth fod wiwer goch wedi ei gweld yn Nant Peris hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal gweithdy i wirfoddolwyr yn ystod mis Medi (gweler gwybodaeth ar dudalen 3)

(llun gan Philip, Nant Peris)



# ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 457  
Medi 2017**

Argraffwyd gan  
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau  
ar e-bost i  
Dafydd Whiteside Thomas  
Bron y Nant, Llanrug  
01286 673515  
ecorwyddfa@gmail.com**

## CADEIRYDD

### Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

### GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys  
marged\_3@hotmail.com

### FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Hafan,  
Llanrug (672221)  
glasgoed@hotmail.com

### TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,  
Brynrefail (01286) 872306  
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

### TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

### TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
Dinorwig (870292)

### TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.  
01286 673838

### GOHEBWYR PENTREFI

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,  
Bethel. (01248) 670115

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts,  
Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts,  
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.  
rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Eifon Roberts,  
Sw'n-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris,  
56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331)  
neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n  
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622  
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Hydref	17-Medi	29-Medi	Penisarwaun
Tachwedd	15-Hydref	27-Hydref	Llanberis
Rhagfyr	12-Tachwedd	24-Tachwedd	Caethro
Nadolig/Ionawr	03-Rhagfyr	15-Rhagfyr	Llanrug

## LLYTHYRAU



### Her 30-30 – Medi 2017

Mae 7 unigolyn wedi penderfynu gwneud Her i gwblhau 30 Copa mewn 30 Awr (Wyddfa i Wyddfa) i gasglu arian i elusennau Tim Irfon a Hosbis y Cartref Gwynedd a Mon. Bydd Gwyn Griffiths, Alan Owen, Stephen Edwards, Phil 'Tan' Jones, Hannah Hughes, Dewi Ferrero a Lowri Morgan Jones yn mynd amdani ym mis Medi. Byddai'r Tim yn ddiolchgar iawn o unrhyw gyfraniad y gall darllenwyr yr Eco gynnig tuag at yr elusennau. Gallwch ein noddi drwy dudalen Just Giving 'Stephen-Edwards16' neu dilynwch ni ar Facebook – Her 2017 Challenge 30 in 30

### Croesawu Cyfeillion

Annwyl ddarllenwyr,

Ar ddydd Sadwrn, 17eg o Fehefin, cynhaliwyd lansiad swyddogol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru, a chroesawyd cynulleidfa barchus i'r Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i'r digwyddiad pwysig hwn yn hanes y Geiriadur.

Cychwynwyd y lansiad gan Arwel Ellis Owen a fu'n trafod ein Gair y Dydd ar gyfer dydd Sadwrn, sef 'noddwr' – pwrpasol iawn a ninnau'n chwilio am gefnogwyr! Siaradodd Andrew Hawke, y Golygydd Rheolaethol am gynlluniau'r Geiriadur at y dyfodol, cyn cyflwyno Llywydd y Cyfeillion, y Prifardd Myrddin ap Dafydd a fu'n rhannu ei atgofion am gwsmeriaid siop lyfrau ei rieni yn Llanrwst, cyn tywys y gynulleidfa ar daith eiriadurol drwy fyd bragu cwrw.

Yn dilyn eitem gan yr Athro Dafydd Johnston, rhoddwyd cipolwg ar waith dyddiol y Geiriadur gan Dr. Angharad Fychan, a soniodd hefyd am gyswllt y Geiriadur â'r cyhoedd drwy gyfrwng Gair y Dydd ar Facebook, Clecs, a Twitter. Bu Tegwyn Jones, cyn aelod o'r staff yn difyrru'r gynulleidfa wrth drafod enwau lleoedd ei ardal enedigol, Pen-bont Rhydybeddau a'r cylch, ynghyd ag ambell stori neu hanesyn diddorol am y bobl a drigai yn y lleoedd dan sylw.

Wedi'r sgrysiâu, cafwyd cyfle i ymweld â swyddfeydd y Geiriadur ac i gymdeithasu dros 'baned o de. Da gweld cynifer â diddordeb yn ein gwaith – mae'n braf gwneud cyfeillion newydd! Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Cyfeillion – bwriad pennaf y gymdeithas yw ennill criw o bobl yn llysgenhadon dros y Geiriadur, ffrindiau a fydd yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth ohono ac annog defnyddwyr newydd.

Yng ngeiriau Myrddin ap Dafydd 'Mae angen cyfaill i gefnogi'r gwaith ... ac i hyrwyddo'r Geiriadur. Ond yn fwy na dim, yn y dyddiau sydd ohoni, mae'n dda cael cyfaill i fod yn darian ac i warchod y Geiriadur – trowch at wefan y Geiriadur a chlicio'r botwm 'ymuno' yn yr Hafan.'

Hoffem gael rhagor o gyfeillion! Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan [www.geiriadur.ac.uk](http://www.geiriadur.ac.uk), e-bostiwch [cyfeillion@geiriadur.ac.uk](mailto:cyfeillion@geiriadur.ac.uk), neu ffoniwch 01970 639094.

Yn gywir

Mary Williams

Ysgrifennydd y Cyfeillion. 23 Mehefin 2017

### CYLCH LLENYDDOL ARFON A GWYRFAI

Nos Fawrth Medi 19eg bydd noson yng nghwmni Dr Angharad Price o dan y teitl

"Trysorau Cudd Caernaefon". Croeso cynnes i bawb i Lyfrgell Caernarfon erbyn 7.30

## RHOIDDION

### Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Meirwen, Gareth, Anwen a'r teulu er cof am Nellie Wyn Jones Rhosgadfan/Llanberis gynt(Cywiriad); Di-enw, Llanberis; Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug; Beti Owen, Stâd Tan-y-cae, Bethel

£10: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog, Deiniolen; Er cof am Trefor Owen Edwards, Tŷ Eldon, Stryd Fawr, Llanberis; Enid Williams, Rhos Rug, Llanrug.

£5: Glenys a Gwilym Owen, 9 Stryd Yr Wyddfa, Llanberis; Marian McGuinness, Ardwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Elizabeth Evans, Pen-parc, Bethel; Brian ac Eirlys Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel; Mrs Megan Hughes, Daron, Llanrug.

£3: Di-enw

### Hwb i Addysg Gymraeg – Cronfa Glyndwr

Fe gafodd Cronfa Glyndwr ei sefydlu yn 1963, ond mae'r cadeirydd presennol, yr hanesydd Catrin Stevens, yn awyddus i adael i genhedlaeth newydd sy'n gweithredu dros yr iaith Gymraeg wybod fod grantiau i'w cael i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae Cronfa Glyndwr wedi cyfrannu dros £28,000 at 80 o brosiectau gwahanol ym mhob cwr o Gymru, ers 2011.

Un o'r brosiectau i elwa oedd Cylch Meithrin Pontllyfni a gafodd arian i hyrwyddo'r cylch. Gellir cael hyd i wybodaeth am sut i wneud cais ar wefan Cronfa Glyndwr, sef [www.cronfaglyndwr.cymru](http://www.cronfaglyndwr.cymru).

Yn ogystal â gwahodd mwy o geisiadau, mae'r Gronfa hefyd yn edrych am ragor o gyfranwyr hael. "Mae'n ffordd wych o helpu addysg Gymraeg," meddai Catrin Stevens. "Mae cyfraniad bach gan y Gronfa i brosiectau addysg Gymraeg yn gallu gwneud gwahaniaeth rhwng llwyddo neu fethu."

## Senedd ifanc



Wele lun o rai o'r chweched dosbarth yng nghyfarfod rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mangor yn ddiweddar gyda'r prif weinidog. Pwyllgor craffu ar ei waith oedd hwn, ac roedd yn

gyfle arbennig i'r disgyblion weld ein senedd ar waith. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith ar gyfer y Senedd Ieuenctid fis Medi.

### Yn ystod y mis aeth heibio ....

- Ofnau fod cynnydd sylweddol yn y Dreth Fusnes yn mynd i gael effaith andwyol ar gwmnïau cymunedol fel Ynni Padarn Peris sy'n cynhyrchu ynni er budd y gymuned. Mae Sian Gwenllian AC Arfon eisoes wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun lleddfur dreth i gwmnïau hydro cymunedol. Does fawr o synnwyr fod y Llywodraeth yn rhoi cymhorthdal ariannol i helpu sefydlu cwmnïau o'r fath, ac yna'i hawlio'n ol – a mwy – drwy gynyddu'r dreth.
- I'r rhai ohonoch sy'n ddilynwyr y rhaglen cwis "The Chase" ar ITV, dangoswyd pa mor Seisnig yw addysg yng Ngwledydd Prydain pan fethodd pob un o'r cystadleuwyr ac enwi iaith Cymru. A doedd yr 'arbenigwr' ddim yn gwybod chwaith!
- Mae'r dywediad "agor ei geg cyn rhoi ei ymennydd mewn ger" yn gyfarwydd iawn, ond prin y byddai rhywun yn ei ddefnyddio i ddisgrifio Arlywydd yr UDA – nes i Trump gyrraedd! Mae ei eiriau ymfflamychol a'i drydar beunyddiol ynglyn a Gogledd Korea a'i ymdrech i beidio gweld bai ar y KKK a'u tebyg yn dilyn terfysg gwrth-hiliaeth y tu hwnt i ddirnadaeth na synnwyr cyffredin.
- Mae'r Wyddfa ar werth unwaith eto – os bu hi oddi ar y farchnad o gwbl. A'r pris? £12,000 yr acer.
- Yn dilyn ymgyrch gref a chefnogaeth amlwg gan feddygon, arbenigwyr yn y byd meddygol, mudiadau a chymdeithasau meddygol a Phrifysgol Bangor, gwrthododd Llywodraeth Cymru y syniad o sefydlu Ysgol Feddygol yng ngogledd Cymru. Roeddent yn dadlau fod anfon myfyrwyr o Abertawe a Chaerdydd 'yn ddigonol'.
- Achosodd Cylch Haearn Fflint gryn gynnwrf, ond yn dilyn petisiwn a arwyddwyd gan rai miloedd yn gwrthwynebu'r fath sarhad, aeth y son am y cynlluniau yn dawel iawn. Yn ogystal a'r Llywodraeth, roedd CADW hefyd dan lach y cyhoedd; yn ddigon felly fel bo rhywun wedi awgrymu mai Celebrate All Defeats of Wales oedd ystyr yr enw.
- Gwerthwyd Y Gelli Gyffwrdd i gwmni Continuum Attractions, cwmni a fu'n gysylltiedig a sefydlu Canolfan Jorvik yn Efrog, ac sy'n parhau a'u prif swyddfa yn y ddinas honno. Ac fel yn hanes Tren yr Wyddfa, dyna un arall o ganolfannau ymwelwyr y fro yn mynd yn eiddo i berchennog tu hwnt i'r ffin.
- Aeth heibio dymor y sioeau amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchwn bawb a fu'n llwyddiannus (gweler adroddiadau yn y rhifyn hwn), ac ymddiheurwn i'r rhai na roddwyd sylw iddynt – ond nid oedd yn bosib cysylltu a phawb er apelio ar i gystadleuwyr roi gwybodaeth am eu buddugoliaethau. Mae gohebwyr yr "Eco" angen gwyliau hefyd.

### Mae gwiwerod coch angen ein cymorth!

Hoffech chi helpu rhywogaeth frodorol i ddod yn ôl o ddbyn difodiant?



© Paul Rogers

Ymunwch ag un o'n diwrnodau hyfforddiant a dysgwch sut y gallwch helpu poblogaethau gwiwerod coch yn eich ardal leol

Mae y diwrnod yn cynnwys cyflwyniad yn y bore ac yn dilyn gyda sesiwn ymarferol ar gadwraeth y wiwer goch neu rheoli gwiwerod llwyd mewn coetir lleol.

Cyflwynir gan Dr. Craig Shuttleworth a Holly Peek.

I logi lle cysylltwch â:

[hollyredsquiritel@gmail.com](mailto:hollyredsquiritel@gmail.com)

neu ffôn/text: 07397953543

**Dydd Gwener Medi 29<sup>ain</sup>**  
am 10 y bore  
yn  
**Dr Zigs Extraordinary**  
**Bubbles HQ**  
**Stâd Y Faenol, Bangor**  
**LL57 4BP**



© Honey Tolman

**BRYNREFAIL** Mrs Lowri Prys Roberts.  
Ffôn: 870580

### YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

*Oedfaon Medi am 5 yr hwyr*

3: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

10: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

17: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

22: Parch Eric Jones, Bangor

## O Penbont i Maes B – Sôn am Sîn

### Oes gen ti ddiddordeb trefnu gigs ym mro'r Eco?

Mae criw o bobl ifanc eisiau trefnu mwy o gigs yn ardal yr Eco a'n bwriadu cyfarfod am y tro cyntaf i drafod yn fuan iawn. Os oes gen ti ddiddordeb bod yn rhan o'r trefnu mewn unrhyw ffordd – archebu bandiau, darganfod grantiau, dylunio posteri, hyrwyddo, rheoli sain neu stiwardio mewn gigs - e-bostia Olygydd yr Ifanc, Marged Rhys ar [marged\\_3@hotmail.com](mailto:marged_3@hotmail.com)

Os nad ydych chi wedi ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar ac yn dibynnu ar S4C i brofi'r brifwyl, cewch faddeuant am feddwl mai dim ond barddoniaeth a cherdd dant sydd yn cael eu gwobrwyo yno. Ond, mae'r Eisteddfod hefyd yn cynnal cystadlaethau cerddoriaeth gyfoes, ac roedd llwyddiant mawr i fro'r Eco yn y cystadlaethau hyn. Yn flynyddol, mae bandiau roc a phop mwyaf cyffrous Cymru yn cael cyfle i chwarae ar lwyfan maes yr Eisteddfod, gyda'r enillydd yn mynd ymlaen i agor Maes B ar y Nos Sadwrn, cael cyfweiliad yng nghylchgrawn Y Selar, sesiwn i Radio Cymru, ac os nad ydy hynny'n ddigon, mil o bunnoedd hefyd! Y band a ddaeth yn fuddugol eleni oedd ein hoff ddeuawd blas-roc o Lanrug, Alfa! Mae Dion a Siôn wedi bod yn gweithio'n galed dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn gigio, yn ogystal â recordio EP ar eu liwt eu hunain, cyn cael cyfle i recordio yn stiwdio Sain yn ddiweddar. Mae cyn enillwyr Brwydr y Bandiau yn cynnwys Y Bandana, Ffug a Chroma, felly gobeithio'n wir y bydd Alfa yn dilyn olion



eu traed! Yn ogystal â hynny, mae Rhys Grail o Fethel yn chwarae hefo Gwilym, y grwp a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, gyda dau aelod o grwp arall y rownd derfynnol, Mosco, hefyd o fro'r Eco. Mae dyfodol y sîn yn yr ardal mewn dwylo da iawn, felly.

Yr ail gystadleuaeth o bwys ym myd cerddoriaeth gyfoes Gymraeg ydy Albwm Cymraeg y Flwyddyn. Yn wahanol i nifer o gystadlaethau'r Eisteddfod, sydd yn gofyn i ymgeiswyr yrru cynnyrch newydd i gystadlu, mae'r wobwr yma yn cael ei dyfarnu i gynnyrch sydd wedi ei ryddhau yn

barod. Cyhoeddir rhestr fer o ddeg albwm gorau'r flwyddyn a fu, ac eleni, roedd gan 3 o'r rheiny gysylltiadau cryf â'r Fro - Bendith gan Bendith, Foresteering gan CaStLeS ac O Groth y Ddaear gan Gwilym Bowen Rhys. Tipyn o gamp am le mor fach! Bendith ddaeth yn fuddugol, gyda thri chwarter y band, Elan, Marged a Gwilym Rhys, yn dod o Fethel. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu buddugoliaeth - dyma albwm hyfryd o amrywiol, aml-haenog a rhamantus.

Yn ogystal â buddugoliaeth mewn cystadlaethau, roedd talentau perfformio'r ardal hefyd yn cael eu harddangos yn yr Eisteddfod. Roedd Gwilym Bowen Rhys yn brysur ofnadwy (fel arfer!) ac yn denu torf enfawr ar hyd a lled y maes â'i anthemau gwerinol.

Rhaid cofio hefyd am fab mabwysiedig Bethel, Yws Gwynedd. Yws oedd prif artist Gig y Pafiliwn eleni, lle'r oedd yn rhannu'r llwyfan â Cherddorfa'r Welsh Pops. Roedd cryn dipyn o ganmoliaeth i'w berfformiad fel rhan o'r noson arbennig hon, ac os nad oeddech yno, bydd yn cael ei ddarlledu ar y teledu i chi ei fwynhau! Roedd y cerddor, yn wreiddiol o ardal Blaenau Ffestiniog, hefyd yn cloi Maes B eleni ar y Nos Sadwrn ac roedd y babell dan ei sang (y gynulleidfa fwyaf erioed yn ôl y sôn!) gyda phobl yn bloeddio ei eiriau yn ôl ato. Heb os, rydym ni wedi gadael ein stamp ar y 'Steddfod 'leni!

Gallwch ddarllen mwy am hanesion cerddorol Gethin a Chris ar flog Sôn am Sîn drwy fynd i [wefan.sonamsin.cymru](http://wefan.sonamsin.cymru)



**Llongyfarchiadau** i Avril Jones, Glan-y-don, ar achlysur dathlu ei phen0-blwydd yn 60 oed.

**Llongyfarchiadau** hefyd i ddisgyblion Ysgol Brynrefail ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Gwellhad Buan** i Mrs Elizabeth Hughes, 17 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth i'w chlun yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ac Irfon a Heddwen, London Garage, yn eu profedigaeth lem o golli mam, mam yng nghyfraith annwyl, nain i Iwan ac Elan a hen nain falch i Erin, Efan ac Osian.

**Profedigaeth** Bore Llun, Awst 14, yn dawel yn ei chartref, Tan-Rallt, yn 70 mlwydd oed bu farw Mrs Kathleen Williams. Bu ei hangladd ddydd Llun, Awst 21ain, yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Bryn a'r plant, Marc, Sandra ac Andrew, ei wyrion a'i wyresau, Llŷr, Nia, Ann, Jack, Thomas, Cadi a Jac a'i brodyr John, Alan, Dennis a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

**Undeb y Mamau** I orffen ein cyfarfodydd am y tymor cyfarfu'r aelodau yn yr Harbwr, Caernarfon, bnawn Mawrth, 20 Mehefin. Croesawyd pawb gan Auriel. Cafwyd munud tawel i gofio am aelod, Mrs Iris Thomas, oedd wedi ein gadael yn ddiweddar a dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Joyce Ransom oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig. Mwynhawyd y cinio gan bawb a threuliwyd gweddill y prynhawn yn trafod y Bererindod ar 4 Gorffennaf.

Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Mair dydd Mercher, 4 Gorffennaf, i ddilyn y bererindod. Ar ôl gwasanaeth byr ymlaen i Eglwys Llandygai a chyfarfod aelodau o'r Gadeirlan. Cafwyd ychydig o hanes yr eglwys. Ymlaen wedyn i Eglwys Pentraeth, aelodau Ynys Môn eglwysi Llannerchymedd a Llangaffo, pryd oedd aelodau o eglwysi Llandudno wedi ymuno. Ar ôl cinio ymlaen i Eglwys St Gyngar Llangefni, pryd y cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid a offrymwyd gan ein Caplan, y Parch Neil Ridings ac anerchiad gan Jenny Lane, Llywydd y Ddeoniaeth. Yr oedd tua hanner cant o aelodau wedi ymuno yn y gwasanaeth. Cafwyd lluniaeth yn neuadd yr eglwys. Diwrnod diddorol iawn. Bydd ein cyfarfodydd yn aildechrau ar 20 Medi.

## Cor Porth Yr Aur

Cafodd Cantorion Porth yr Aur ei sefydlu ar gyfer cystadlu yn y gystadleuaeth i gorau pensynwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013. Dan arweiniad Bil Efans, a gyda Grêr Pritchard yn cyfeilio, aethant ymlaen i gystadlu'n llwyddiannus yn eisteddfodau Meifod a'r Fenni. Gyda'r côr yn dirwyn i ben, penderfynodd yr aelodau rannu'r arian oedd yn weddill yn y coffrau rhwng pedair elusen.

Bu Sam Davies, cadeirydd y côr a Caroline Jones, ysgrifennydd, yn cyflwyno sieciau o £300 yr un i Merfyn Morgan a Gwyn Lewis ar ran Theatr Seilo, Sister Sara a Helen o Ward Alaw, Debbie Parry o Seiont Newydd a Bil Efans ar ran Cymdeithas Clefyd Addisons.

## TARO TANT

gan Hugh Parry Williams (Hen Bar) Cwm-y-glo

Wrth edrych yn ôl i'r gorffennol,  
Ychydig flynyddoedd mae'n wir,  
A dwyn i gof yr hen aelwyd  
N'ad â byth yn angof yn hir,  
Y cartref i'm golwg fel palas  
A'i gwpwrdd nas gwelwyd yn llwm  
A'm gwraig, fel y plant, oedd yn meddwl  
Mai nefoedd fach inni yw'r Cwm.

Fel miloedd o fechgyn gwnes innau  
Ymuno fel milwr i'r gad,  
I fyw, neu i farw fel gwron,  
I ymladd yn ddewr dros fy ngwlad,  
Gan feddwl wrth 'mado â chartref  
Na fyddwn i fawr gyda'r drwm,  
Y cawn ddychwelyd yn fuan  
I aelwyd fach ddedwydd y Cwm.

Mae llawer o fechgyn yr ardal  
Mor hardd ag yw blodau y ddôl,  
Yn myned run modd a gwnes innau  
Ychydig flynyddoedd yn ôl.  
Rhai'n myned dan ganu a dawnsio  
Ac arall â'i galon yn drwm  
A phob un yn cario'r un meddwl -  
Dod adref yn ôl i'r hen Gwm.

Aeth Emlyn a Stanley a Gwilym  
Tri llencyn ystwythgryf ac iach,  
A Glyndwr a'i frawd Richard Thomas  
A churwr y drwm, Harri Bach.  
Bob Edwards, Dick Roberts Dôl Afon  
A Morgan ap Morgan Bryn Crwn  
A Iorwerth Rallt Goch a John Williams  
'Does debyg i hogia'r lle hwn.

Mae Ivor yr Aber yn filwr  
Ac Aled Bach Terrace yn wir  
Ac Owen Glyn Davies, gwnaeth yntau  
Ei orau, ond methu yn glir.  
Ei dri brawd Wil, Dafydd a Robot  
Ac Idwal, maent hwythau yn drwm  
Er wedi mado hyd eto  
Mae'r galon yn curo'n y Cwm.

Tri arall o frodyr ymunodd,  
Noa Parry a Robin a Sion,  
A Roy a Ted Morris, dau fachgen  
Amdanynt mae cymaint o sôn.  
Haw Haw fydd yn crafu ei glustiau,  
Ac oni fydd Goebbels yn llwm,  
Ond Chamberlain glywir yn gwaeddi  
'Ardderchog, chwi fechgyn y Cwm.'

Nid oedd yr un pentref yng Nghymru,  
Y rhyfel diweddfaf a fu,  
Wnaeth anfon cynifer o filwyr  
A ddarfu ein pentref bach ni.  
Wrth gofio am rai, mae fy ngruddia  
Yn llaith O! A'm calon yn drwm,  
Ond engyl a wylia y lle cyn  
Lle gorwedd dewr fechgyn y Cwm.

*Hogia Cwm y Glo - Wedi ei ysgrifennu yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Trwy law Mrs Nora Jones o Lanberis, merch Robot Davies a gyfeirir ato yn y pumed pennill.*

**Ffenestri CADNANT Windows**  
iorwerthwilliams@fsmail.net  
**DRYSAU □ FFENESTRI**  
**A CONSERFATORIS UPVC**  
**AMCANBRIS AMDDIM**  
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

**Gwasanaeth Gwres a Plymio**  
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio  
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser  
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW  
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

**Dathlu Pen-blwydd** Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Betty Bower, Tan y Marian, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed ar 2il o Orffennaf. Cafodd ddathlu ei phen-blwydd hefo'r teulu yn ei chartref gyda parti i'w gofio ac yr oedd wedi gallu mwynhau ei hun yn arw iawn.

Hefyd Llongyfarchiadau mawr i Mrs Enid Jones (Roberts gynt) a gafodd ei dwyn i fyny yng Nghae Canol, Fachwen. Wedyn ar ôl priodi bu yn byw yn Talysarn ond yn cartrefu ar hyn o bryd yng Nghartref Trosnant, Rhuthun. Bu iddi hi ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ar 25ain o Orffennaf. Gobeithio iddi hithau fwynhau ei diwrnod mawr yng nghwmni ei theulu.

Pob bendith ac iechyd i'r ddwy yn ystod y blynyddoedd a ddel.

**Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn**

Bu imi fwynhau yr Eisteddfod o Bodedern. Cefais lawer o fwyniant yn ei gwyllo ar S4C a chredaf iddynt ddod â'r Eisteddfod yn fyw iawn i ni, ychydig iawn a gollais. Er na welais i ddim bron o fand Deiniolen, dim ond eu llun yn dod i'r llwyfan a chefn Lois, dyna'r cyfan. Tra yn diolch i S4C am eu darllediad o'r Eisteddfod, credaf fod yna lawer gormod o siarad ac yn sicr llawer gormod o feirniaid answyddogol. Bu imi fwynhau Eisteddfod yr Urdd o Ben y Bont ar Ogwr yn llawer iawn gwell, gan nad oedd cymaint o siarad ac y mae'n rhaid dweud fod y dynion yn waeth am siarad na'r merched. Bu imi fwynhau yr Archdderwydd Geraint Llifton yn arw iawn am y modd hwyliog y bu iddo wneud ei waith. Yr oedd yn dod â rhyw ysgafnder i'r seremoniau a thrwy hynny yr oedd yn gwneud y gwaith yn hynod o diddorol. Da iawn, Geraint.

Daeth tipyn o wobrau i ardal yr Eco ac os na fu llwyddiant eleni, peidiwch digalonni, ymlaen â chwi a thrio y flwyddyn nesaf yng Nghaerdydd. 'Dyfal donc a dyr y garreg.'

**Tymor y Gwyliau** Mae'r Eisteddfod o'r tu ôl inni a'r gwyliau yn dirwyn i ben a'r dydd yn tynnu i mewn, er mai yn rhaid dweud eleni eto nad oedd yn haf yn hirfelyn tesog fel yn y blynyddoedd a fu. Carem ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg neu i ryw swyddi eraill. Cofiw'n am y rhai bach sydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl, gan gofio nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau. Llawer o golli dagrau gan fam a phlentyn. Pob lwc iddynt i gyd lle bynnag y byddant yn mynd ar derfyn y gwyliau.

**Arholiadau** Erbyn y daw yr Eco yma o'r wasg fe fydd canlyniadau yr arholiadau wedi dod allan a gobeithio am lwyddiant a'ch bod yn hapus efo'ch canlyniadau ac y byddwch yn gallu mynd ymlaen â beth bynnag yr oeddych wedi edrych ymlaen i'w wneud. Os nad ydych yn hapus â'ch canlyniadau mae yna dro nesaf a gwell lwc i chwi. Peidiwch â digalonni er bod pob dim yn edrych yn dywyll ar y pryd, fe ddaw goleuni. Dymuniadau gorau i bawb sydd wedi eistedd yr arholiadau a phob bendith i'r blynyddoedd a ddel.

**Newidiadau** yn y Pentref Yn ystod y gwyliau mae dipyn o bobl ddiarth wedi dod i fyw i'r ardal ac ohonynt i gyd mae un teulu Cymraeg wedi cartrefu yn Fron Heulog. Gobeithio y byddant yn setlo i lawr ac yn dod a chymysgu hefo'r ychydig Gymry sydd ar ôl yma. Mae'r iaith Gymraeg yn prysur farw, gwaetha'r modd, yn yr ardal. Does yna yr un capel, eglwys, ysgol na neuadd yma yn awr. Mae ardal Dinorwig fel ag yr wyf i yn ei chofio wedi peidio â bod. Pan gaeodd yr ysgol a'r chwarel yn 1969, dyna ddechrau dirywiad yr hen ardal.

**Cofion annwyl** iawn at Mrs Priscilla Williams, Wylfa, a Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, y ddwy yn dal yn weddol ac yn parhau i fwynhau bywyd yn 102 mlwydd oed.

**Gwasanaethau y Capel**

Dydd Sul, Medi 3ydd am 2.00 gweinyddir gan y Parch Marcus Robinson.

Dydd Sul, Medi 17 am 2 o'r gloch gweinyddir gan y Parch Harri Parri, Caernarfon.

**Clwb Merched** Bydd tymor newydd y clwb yn cychwyn Nos Iau, Medi 28ain, am 8.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Bydd croeso cynnes i aelodau hEn a newydd bob amser.

**Diolch** Dymuna Bethan Iwan, Carrog, Rhos Bach, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am yr holl ymweliadau, cardiau, galwadau ffôn a negeseuon testun yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae pawb wedi bod yn hynod o ffeind.

Diolch i Dr Esyllt a Meddygfa Waunfawr, i wardiau Conwy a Tegid am eu gofal diflino. Mae'r cyfan wedi bod yn gysur mawr i mi.

(Ategwn ein dymuniadau gorau i Bethan, sydd yn ddsbarthydd ffyddlon i'r Eco yng Nghaeathro ers sawl blwyddyn bellach. Brysia wella)

**Profedigaeth** Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Iona Ceiriog, Huw a'r teulu, Erw Wen, yn eu profedigaeth o golli tad Iona yn ddiweddar. Roedd Mr Robin Jones yn gyn-brifathro yn Ysgol Aberdaron.

**Dathlu** Efallai i chwi glywed cyngerdd Côr Meibion Caernarfon yn y Galeri yn ddiweddar, yn dathlu hanner can mlwyddiant y côr. Chwip o gyngerdd, cofiadwy iawn, ac un fu'n aelod ers y cychwyn cyntaf yw Mr Vernon Jones, Llain Meddygon. Llongyfarchiadau mawr i chi am gamp go arbennig a chyfraniad mawr i barhad y Côr Meibion.

**Tynfa Misol Caeathro**

Dyma'r canlyniadau am fisoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst.  
Mehefin 1af (38) £40: J. ac A. Pritchard, Ty'n Gors Newydd; 2il (30) £25: J. Evans, Llwyn Alice; 3ydd (8) £15: Rhys Evans, Caeathro Bach; 4ydd. (35): £5. Norman Hughes, Llyn Gele.  
Gorff. 1af (48) £40: W.E. Hughes, Cefn Gwern; 2il (25) £25: Hannah Hughes, Llyn Gele; 3ydd (66) £15: Nia Jones, 10 Rhes Glangwna; 4ydd (97) £5: Dewi Jones, 13 Erw Wen  
Awst 1af (90) £40: Yvonne Jones, Gilfach, Glandŵr; 2il (54) £25: Harriet Roberts, 5 Erw Wen; 3ydd (72) £15: T. ac M. Evans, Plas Treflan; 4ydd (41) £5: Sulwen Jones, 4 Caeathro Bach.

**Llongyfarchiadau** i Kate Pritchard ac Elin Tomos - y ddwy wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth dros yr haf. Dymuniadau gora' i Kate yn ei swydd newydd ac i Elin, a fydd yn dychwelyd i Aberystwyth i astudio gradd Meistr.

**Llongyfarchiadau** gwresog i Gethin Pritchard ac Elin Royle, Sŵn-y-Nant, sydd wedi dyweddio yn ddiweddar Bob hapusrwydd i chi'ch dau.

**Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch** Dydd Sadwrn, 19eg o Awst, daeth 70 o gystadleuwyr i gymryd rhan yn Nhreialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r digwyddiad ac i'r rhai a wirfoddolodd ar y diwrnod.

**Canlyniadau y Dosbarth lleol:**

1. John Pritchard gyda Fflei
2. John Pritchard gyda Joe
3. Bryn Griffith gyda Meg
4. Dafydd Pritchard gyda Fflei
5. Michael Williams gyda Nel

**Ail Ddosbarth:**

1. Karolina gyda Mag
2. Brynley Williams gyda Lad
3. Marc Owen gyda Robin
4. Idris Thomas gyda Gari
5. Morus Evans gyda Cadi

**Dosbarth Agored:**

1. Idris Thomas gyda Jaz
2. Arwel Owen gyda Glenys
3. E.W. Edwards gyda Fflei
4. E.L. Morgan gyda Spot
5. Emyr Jones gyda Kurk
6. Alwyn Williams gyda Max

**ECO'r Wyddfa** Cefnogwch ein hysbysebwy

## HYNAC ARALL - Cerdded yr Wyddfa

Y mae'n dibynnu'n hollol faint o gryfder a berthyn i chwi, ond hefyd yr awydd, ac hyd yn oed o gael hwnnw, yr ysfa os mynnwch, cyn mentro crwydro hefo'ch trwyn a'ch traed wedi'u hanelu am yr Wyddfa. Oes chwep! Da ydyw hynny, y mae na bethau eraill i'w hystyried. Yn gyntaf, a ydych yn parchu'r mynydd? Waeth heb mynd yno ganol gaeaf wedi eich dilladu fel petaech yng nghanol tymor yr haf. Peth arall, pa ddyd gwirion bost (mi synnech chi) sy'n mynd i gerdded mynydd mewn sandalau a het wellt, a hithau'n stido'r glaw?

Ydach chwi wedyn yn un sgut am astudio'r tywydd ac yn gwybod yr arwyddion? Mae gweld malwod, hyd yn oed wlithenod, o gwmpas yn y bore bach, yn brawf sicr ei bod yn wlyb dan draed, a bod llethr unrhyw fynydd yn llithrig.

Do! ddoe, heddiw, yfory – ceir bodau dynol yn troedio'r Wyddfa, ond dydy hynny heb olygu ychwaith iddynt ymweld â phob cilfach a chongl ohoni, nag ychwaith rhagweld ambell newid cwbl annisgwyl yn y tywydd tra yno!

Gadewch inni ddychwelyd dros 138 mlynadd yn ôl a gweld beth a ddywedir am dywydd yr Wyddfa bryd hynny.

Dyna J.G. ai gyfaill doniol, chwedl yntau, sef Edmwnd Parri, ac eraill! Y maent yn cychwyn, dalier sylw ar Ddydd Mercher ... yn gwmni llon a llawen ... o orsaf Caernarfon (gorsaf drenau ager/stêm, a feddylir nad ydyw yno erbyn hyn) a hynny ychydig wedi wyth, ac yn cyrraedd Llanberis ychydig cyn naw y noson honno.

Roedd yn amlwg hefyd mai J.G. Ydoedd 'r unig un o'r fintai a lwyddodd i ddringo'r Wyddfa cyn hynny!

Y tu allan i orsaf Llanberis, deallodd y Perisian lads (hogia Llanberis sydd dan sylw!) mai pererinion oeddem, ac yn y fan ymosodasant arnom â holl nerth eu huawdledd guideyddol. Pwysent arnom yn ddirugaredd gan adrodd ac ailadrodd yr ychydig frawddegau o Saesoneg oeddynt wedi allu eu pigo i fyny i gyfarfod eu hangen...

Gofynai un... am gael y fraint o'n harwain i ben yr Wyddfa... erfynai un arall yn daer am inni ddyfod gydag ef i gyfranogi o wledd oedd wedi ei darparu ar ein cyfer yn un o'r gwestai cyfagos, fel pe buasem yn dda i ddim ond i fwyta; un arall bron syrthiai ar

ei liniau (luniau a brintwyd; diawl bach y Wasg a gâi'r bai am wall o'r fath!) i ofyn am gael cario ein luggage, a thybiwn y buasai'n gofyn am gael cario rai ohonom ninnau hefyd onibai iddo weled ein bod yn dipyn yn drwm.

Enwir wedyn man aros. Ie'r Snowdon Valley Hotel. Doedd yno goco i'w yfed! Dim ond coffi! Sylwch ar hwn, sy'n eich atgoffa o'r hyn a fynegwyd gan Thomas Herbert Parry-Williams, Rhyd-ddu, a hynny mewn soned o'i eiddo:

Wrth edrych i fyny rhyngom â phen yr Wyddfa, gwelem pa mor uchel ac mor fawreddog ydoedd, ac erioed ni theimlasom ein hunain mor hynod drychfilaidd o fychain.

Yn ystod y daith:

...canem ambell hen alaw adnabyddus... ac eisteddem pan fyddai'r coesau yn dechrau teimlo cryd-cymalau'r Wyddfa.

Deuir yng ngolau'r lleuad i'r Half Way Hotel, yr hon a gedwir gan yr enwog Moses Williams, a chyfle yno i dorri syched. Ie! Ginger ale a lemonade o cellar y brawd Moses...

Ac i ganol -

Y niwl!

A gorfod dychwelyd -

Am Lanber, a'i gynhesrwydd.

Yr oedd y gwlaw yn ymdywallt... Yr oedd Dafydd Jenkins (un o'r fintai) wedi rhwygo ei esgid. Ap Hywel wedi torri ei galon, Edmwnd Parri wedi gwneud ei het wellt yn het gorn, ac yna – O'r diwedd yn un gang o Fedyddwyr selog, coronasom ein gwlybder trwy groesi afon y Ceunant hyd ein gliniau... troediasom am yr orsaf... a chymerodd y ceffyl tân (ie, trên!) drugaredd arnom, a dygodd ni i Gaernarfon mor gynted ag y gallodd. J.G. Taith i ben y Wyddfa, Y Genedl Gymreig Awst 21 (1879) 7 col. 2-3.

Ie! 138 mlynadd yn ôl! Ond wedi meddwl, does fawr ddim byd sy'n wirioneddol newid yn hynt a helynt rhen fyd ma! Tybed wir i chi? Ia! Ynte hefyd!

Dafydd Gruffudd Ifan

## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Diolch** Dymuna Heulwen, Cheryl a'r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Trefor Owen Edwards. Dymunant ddiolch i Feddygon a Staff Meddygfa Llanberis ac i Staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig. Diolch hefyd i'r Parchedig Ddr Carol Roberts a Robert Townsend, am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd, ac i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard, Llanberis) am ei drefniant gofalus.

**Eglwys Sant Padarn** Ar ran Eglwys Sant Padarn, hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant ein Noson Ocsiwn a Rhostio Mochyn ar Orffennaf y 12fed.

Diolch i'r trefnwyr, y rhai a gynorthwyodd i baratoi'r lawnt ar gyfer y noson, pawb

a brynodd docynnau ac a brynodd eitemau yn yr ocsiwn. Diolch i holl fusnesau'r ardal a gyflwynodd eitemau i'r ocsiwn, ac i eraill a anfonodd roddion ariannol i'r coffrau.

Diolch i Mr Emerson Hughes am argraffu'r holl docynnau a'r posteri, ac i Aneurin am ganiatâd i gynnal y noson ar lawnt Gwesty Dolbadarn.

Yn olaf, ond nid y lleiaf, diolch i'r "ocsiwniar" arbennig a lwyddodd i werthu pob eitem ar y rhestr!

Codwyd swm o £2,100 o elw, wedi costau, ar y noson tuag at Gronfa Eglwys Sant Padarn a Chronfa Gegin Newydd yr Eglwys.

Diolch o galon i bawb!

**Diolch** Dymuna Glenys a Gwilym Owen, 9 Stryd Yr Wyddfa, Llanberis, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y

llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch!

**Marwolaeth:** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar y pedwerydd o Awst wedi brwydro'n ddewr, bu farw Trefor Owen Edwards yn 75 mlwydd oed. Yn enedigol o Lanberis, treuliodd ei oes yn ei filltir sgwâr gan weithio i Gyngor Gwyrfa, Cyngor Arfon a Chyngor Gwynedd am bron i ddeugain mlynedd. Yna, wedi ymddeol, bu'n gynghorydd yn Llanberis a Nant Peris am ddeunaw mlynedd. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Sadwrn, y deuddegfed o Awst, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ddr Carol Roberts a Robert Townsend gydag Alison Edwards wrth yr organ.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i wraig Heulwen, ei ferch a'i fab yng nghyfraith, Cheryl a Dafydd, ei wyrion Mathew, Medi, Mabli a Begw, ei frawd Oliver a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

**Marwolaeth** Bu angladd Mrs Yvonne Hind Lovell dydd Gwener, Gorffennaf 21, yn Amlogfa Bangor. Gofalwyd am y gwasanaeth gan y Parch. Carol Roberts, Rheithor plwyf Llanberis, a roddodd deyrnged deilwng i gymeriad Mrs Lovell. Yn ôl ei dymuniad, gwasgarwyd llwch Mrs Lovell ar lain o dir ger ei chartref cyntaf yn Nant Peris.

Diolchir i Gwynfor a Jane o gwmni angladdol E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau cywir a pharchus a chyflwynir y rhoddion a dderbyniwyd i apêl cegin Eglwys Dolbadarn, Llanberis.



### Y Faner Werdd

Llongyfarchiadau i staff Parc Gwledig Padarn am eu llwyddiant yn ennill statws Y Faner Werdd unwaith eto eleni. Mae'n dangos eu hymroddiad i baratoi'r Parc Gwledig ar gyfer mwyniant y trigolion lleol yn ogystal ac ymwelwyr i'r ardal.

### Oedfaon Capel Coch

- Medi 3ydd: Mr Huw Tegid Roberts 10yb, Dim Oedfa 5yh
- 10fed: Y Gweinidog 10yb, Oedfa Moli 5yh
- 17eg: Mr Norman Closs Parry 10yb, Y Parch Chris Prew 5yh
- 24ain: Oedfa Deulu 10.30yb

### Ysgol Sul Capel Coch

Ddydd Llun, Gorffennaf 24, roedd yr Ysgol Sul wedi trefnu prynhawn o Gystadlaethau Crefft yn Capel Coch. Roedd yno gystadlaethau amrywiol, yn cynnwys coginio, arlunio, gwneud modelau a threfnu blodau, ar gyfer plant, ieuencid ac oedolion. Roedd yr holl gynigion yn barod erbyn canol dydd ar gyfer y beirniaid, Valerie, Rhiannon a Sioned, a'r arddangosfa yn agored i bawb wedyn o 2.00 o'r gloch ymlaen. Cafwyd prynhawn difyr dros ben, ac yr oedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, a llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran. Diolch yn arbennig i Marga Bee am y syniad o gynnal y gystadleuaeth ac am y paratodau manwl ar gyfer y dydd. Diolch hefyd i'r beirniaid am eu gwaith, ac i bawb arall a fu'n helpu i sicrhau llwyddiant y dydd. Oherwydd llwyddiant y prynhawn, mae galw am drefnu digwyddiad arall tebyg.

Dyma restr yr enillwyr:

Coginio:

- Bl. 1 a 2: 1. Tirion, 2. Ynyr, 3. Lliwedd
- Bl. 3-6: 1. Gwenlli, 2. Nia a Rhydian, 3. Jamie ac Adam
- Pob oed: 1. Gareth, 2. Falmai
- Diod: 1. Alan, 2. Aled

Celf:

- Bl. 1 a 2: 1. Lliwedd, 2. Non, 3. Tirion a Guto
- Bl. 3-6: 1. Gwenlli, 2. Elain, 3. Jamie ac Adam
- Pob oed: 1. Alan, 2. Alan a Gwen

Gwneud modelau:

- Bl. 1 a 2: 1. Non
- Bl. 3-Uwchradd: 1. Thomas, 2. Jamie, 3. Adam

Trefnu blodau:

- Bl. 1 a 2: 1. Megan, 2. Ynyr
- Bl. 3-6: 1. Adam, 2. Nia ac Eysyllt, 3. Jamie
- Pob oed: 1. Dilys Mai, 2. Bet a Gareth, 3. Dilys Mai

- 1. Gaynor, 2. Gareth, 3. Marga

Crefft:

- Pob oed: 1. Marga, 2. Falmai, 3. Falmai



Y Gorau yn y Sioe: Thomas Hughes



### Pentref Taclus

Yn ystod yr haf fe wnaeth criw o bobl leol ddod at ei gilydd yn Llanberis i ddechrau grŵp newydd o'r enw Pentref Taclus. Mae'r grŵp yn mynd o amgylch Llanberis i godi sbwriel bob bore Sul. Mewn pedair sesiwn o godi sbwriel fel grŵp, maent wedi casglu 74 o fagiâu bin llawn! Maent wedi casglu yn y manau poblogaidd i ymwelwyr a hefyd ardaloedd preswyl pobl leol a pharciau chwarae'r plant. Mae ganddynt fasgot hefyd, sef ceffyl bach o'r enw Hero, sydd yn helpu ar ambell i achlysur codi sbwriel.

Maent yn ddiolchgar iawn o gael cefnogaeth gan Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Siemens Healthineers a Menter Fachwen.

Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno, hefo dim gorfodaeth i ddod bob wythnos. Cyfarfod bob bore Sul, am 10 o'r gloch yn siop Menter Fachwen, Stryd Fawr, Llanberis. Maent hefyd ar Facebook fel 'Pentref Taclus-Llanberis-Tidy Village' - os mynnwch edrych ar rai o'r lluniau a hanesion.

Mae'r llun yn dangos rhai o'r gwirfoddolwyr gyda'r ceffyl bychan, Hero!

## Siop Trin Gwallt TW Llanberis yn ennill Gwobr Gofal Cwsmer



Mae sistem meddalwedd Phorest wedi ei chreu'n arbennig ar gyfer apwyntiadau mewn siopau harddwch a thrin gwallt. Mae'r cwmni wedi ei leoli yn Nulyn, ac mae'r meddalwedd yn helpu siopau prysue i farchnata a chysylltu'n gyflym ac effeithiol efo'u cwsmeriaid. Mae'r sistem hefyd yn galluogi cwsmeriaid i roi adborth i'r siop ynglyn a'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Mae niferoedd yr ymatebion sy'n rhoi pedair seren neu fwy i'r salon yn cael eu cofnodi a'u cymharu a rhai eraill led-led Prydain a Gweriniaeth Iwerddon. Dyma'r flwyddyn gyntaf i Siop TW ddefnyddio'r sistem, a chafwyd canlyniadau arbennig o dda, gyda chwsmeriaid yn rhoi 5 seren yn adborth. Mae hyn yn dangos fod safon gofal cwsmer yn arbennig o dda. Dywedodd Wayne ei fod yn arbennig o hapus o dderbyn y wob, gan ei bod ar yr un pryd yn dangos ym mha agweddau o'r gwaith y mae lle hyd yn oed i wella! Mae hefyd yn dymuno diolch i'w gwsmeriaid rheolaidd am fod mor werthfawrogol o'r gwasanaeth.



YR HEN ÊL



**Derbyniwyd rhoddion er cof yn ddiolchgar tuag at Awyr Las. Trefnwyd yr angladd gyda'r gofal arferol gan E.W. Pritchard, Llanberis, a chynhaliwyd yr arlwy yng Ngwesty Victoria.**

Yn y deyrnged cyfeiriodd Myrddin ac Arwel at y ffaith mai fel Hen El y byddai yn cael ei gyfarch gan ei gyfeillion. Ond fel YR Hen El ganddynt hwy, ynghyd â Vivian ac Annette, oherwydd ei fod yn unigryw ac na wyddent am Hen El arall tebyg iddo. Chwaraewyd recordiad Hogia'r Wyddfa o'i hoff gan – Gwauncwmbwynog – wrth i'r arch ddynesu at yr allor. Ym Mhenceunant (Caffi Steff erbyn hyn) ar gyrion y cwm y treuliodd ei fabandod, yn fab hynaf Hugh Richard Jones a Ceinwen Lloyd Jones. Yna symudodd y teulu i Lanberis lle y ganwyd ei chwaer, yr annwyl ddiweddar Breda, ac yna ei chwaer fach oedd mor agos at ei galon – Dilys. Ymhyfrydai yn y ffaith iddo gael ei fedyddio gan yr enwog Barchedig R. Bryn Williams awdur geiriau Gwauncwmbwynog.

Ei fam oedd y dylanwad cerddorol arno er ei fod ar sawl achlysur yn cyfeirio at ei athro David Jeffrey Owen yn ysgol Dolbadarn fel un arall, ynghyd ac Idwal Roberts a Richard Jones, dau godwr canu yng Nghapel Preswylfa. Y ddau yma sylwodd ar ei ddawn fel lleisiwr a buan y daeth Elwyn yn aelod o bartion canu a chorau o fewn y gymdeithas

ddiwylliedig a cherddorol hon. Cymerodd ddi-ddordeb mewn offerynnau cerdd hefyd a bu'n chwythu'r cornet, y corn bariton a'r tiwba yn ei dro gyda Band Pres Llanberis.

Ond nid Preswylfa oedd yr unig feithrinfa iddo. Yn aml iawn byddai criw o fechgyn y pentref yn troedio o amgylch llwybrau'r fro yn sgwrsio am amryfal bethau cyn torri allan i ganu cyn noswyllo. Dan arweinyddiaeth yr anghymharol Gruffudd Eurwyn Huws mi fyddai caneuon corau meibion ac ambell i emyn don a chan werin yn diasbedain dan Gastell Dolbadarn neu ar y ffordd i Nant! Dyma gychwyn ac arbrofi gyda harmoni. Dyma grud y gân i Elwyn, Myrddin ac Arwel, a hynny ymhlith ffrindiau bore oes Llanber.

Hogyn Llanber oedd Yr Hen El o'i goryn i'w sawdl, ffaith sy'n cael ei hadlewyrchu yn englyn Y Prifardd Siôn Aled pan glywodd am farwolaeth Elwyn.

“Lle heno'r Tylluanod? Lle heno

Y bas llawn, diwaelod?

Nid aiff, na'r llais yn diffod

O Lanber, o fer ei fod.”

Ceisiodd Myrddin ac Arwel am weddill y deyrnged grynhoi yr hyn a'i gwnaeth yn ffigwr mor boblogaidd yn lleol ac yn genedlaethol. Chymrodd o erioed at y busnes digidol 'ma! Ond trwy'r dechnoleg fodern y daeth Myrddin ac Arwel i sylweddoli maint ei boblogrwydd. Roedd yr ymateb i'w farwolaeth yn anhygoel, nid yn unig yn lleol, ond drwy Gymru benbaladr a thu hwnt. Roedd presenoldeb ei gyd artistiaid, yn gerddorion, actorion, cyflwynwyr, cynhyrchwyr a mwy yn dyst o'i boblogrwydd ym myd y cyfryngau a'r llwyfan. Yn ôl Myrddin, llais dwfn, cyfoethog Elwyn oedd y rhinwedd a ddenodd sylw cenedl. Petai wedi penderfynu dilyn hyfforddiant lleisiol, yn ddi-os, byddai wedi llwyddo fel unawdydd. Yn wirperswadiwyd ef gan gerddor o'r radd flaenaf, Dafydd Bullock (Dyffryn Peris a Lwcsenbwrg), i gasglu

ynghyd rhai o'i hoff ganeuon ac yna eu recordio. Dyna wnaed, ac mae'n berl o gasgliad. Aeth Myrddin ymhellach gan gyfeirio at y ffaith ei fod yn gallu defnyddio'i lais i ymdoddi ac asio â lleisiau eraill. Dyna wnaeth o gyda Hogia'r Wyddfa, Parti Preswylfa, Parti Eryri a Chôr Dyffryn Peris.

Cyfeiriodd Arwel ar ei ddawn fel actor a chymdeithaswr rhwydd. Anaml y byddai yn cyflwyno cân, ond byddai yn seren yn y sgetsys a fyddai'n rhan annatod o berfformiadau'r Hogia. Dysgodd y ddawn hon dan adain Y Parchedig John Owen flynyddoedd yn ôl. Ond cofir amdano fel cymdeithaswr rhwydd ei dafod a hynny ymhlith y sêr neu'r rhai mwyaf distadl. Yr un 'Rhen El fyddai'n troi i fyny waeth beth fyddai'r achlysur. Adroddodd Arwel yr hanesyn amdano yn cyfarfod un o sêr mwya'r byd, Grace Jones, cantores ac actores yn un o filmiau James Bond. Yn dilyn achlysur yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd lle yr oedd Grace yn seren y noson ac, yn ôl cyfarwyddwr y noson, yn mynnu cael preifatrwydd yn dilyn ei pherfformiad. Ar ddamwain hollol daeth Yr Hen El ar ei thraws mewn ystafell foethus. Yno bu'r ddau yn sgwrsio ac ysmegu fel petai nhw wedi bod yn gyfeillion oes!

Oedd, roedd Yr Hen El yn ddyn pobl, ond yn fwy na hynny - dyn ei deulu oedd o. Roedd ei deulu yn bopeth i Elwyn, ac roedd Elwyn yn bopeth i'w deulu. Cydymdeimlwyd yn fawr â Hefina, Thelma, Dilys a'u teuluoedd oll yn eu trallod. Canodd y gynulleidfa anthem Hogia'r Wyddfa, 'Safwn yn y Bwlch', wrth hebrwng Elwyn i'w orweddfan olaf. Yr anthem, ynghyd â llais y baswr ynndi a symbylodd y Prifardd Aneirin Karadog i'w goffau mewn englyn.

“Wyla'r Wyddfa wrth d'orweddfan,

Wyla'r awelon alargan,

Yn y bwllch wyt ddraig pob ban

Yn y cof yn cyhwfan.

**Ar y 15ed. o Orffennaf 2017, yn 79 mlwydd oed bu farw Elwyn Wilson Jones neu Elwyn Hogia'r Wyddfa i'r genedl. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 22ain, i ddathlu ei fywyd, cyn ei roddi i orffwys ym mynwent Nant Peris. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchedig Gwynfor Williams, gyda Mr Iwan Williams wrth yr organ. Talwyd teyrnged i Elwyn gan Myrddin ac Arwel, ei gyd gantorion am hanner canrif, gyda datganiad cerddorol o ganeuon Hogia'r Wyddfa ar y piano gan Annette, eu cyfeilydd am dros chwarter canrif. Daeth torf fawr ynghyd, yn deulu, cymdogion, ffrindiau, cydweithwyr a chyddiddanwyr o bell ac agos i dalu'r gymwynas olaf iddo.**

**Er cof am Elwyn Wilson Jones**

(Elwyn Hogia'r Wyddfa)

Mae'r bas yn llais mor bwysig, – hwn yw'r sŵn,  
sy'n rhoi'r sail harmonig.  
Ynddo, mae'r llef gyntefig,  
y ble drom yn y bol drig.

I Elwyn cŷn pob caniad, - denu'r graen  
dyna'r grefft yn wastad.  
Trin alaw fesul trawiad,  
naddu'i le'n neuaddau'i wlad.

Richard Llwyd Jones



# CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

## Barbareiddiwch Erchyll i Gymro yn Nebraska .....

Gyda diolch i Arvon Roberts o Bwllheli am anfon yr adroddiad hwn, sy'n dangos cysylltiad a bro'r "Eco".

Cymro o Ogledd Cymru oedd David H. Jones, neu Dafydd Jones yr hen lanc, fel yr oedd yn cael ei adnabod yn nhalaith pell Nebraska. Yr oedd Dafydd yn Gristion gonest, a tua 7 o'r gloch y nos, Mawrth 18fed, 1897, yr oedd wrthi yn cadw dyletswydd yn ei dŷ yn ardal Blue Springs lle codwyd capel Cymraeg gan y Methodistaidd rhyw bymtheg mlynedd ynghynt, pan ddaeth cnoc ar y drws. Yntau heb feddwl dim drwg a aeth i'w agor ac ar amrantiad dyna ddydd yn camu ato ac yn ei daro â'i ddwrn yn ei wyneb nes iddo ddisgyn ar wastad ei gefn ar lawr y tŷ. Wedi rhoi mwgwd ar ei lygaid a'i lindagu, gorchymynnwyd iddo ddweud yn lle yr oedd ei arian; yntau yn grynedig a ddywedodd fod ganddo \$4 a 50cant yn y llofft. Arweiniwyd Dafydd Jones i fyny'r grisiau a cafwyd yr arian, ond ni chredai y mileiniaid, oherwydd yr oedd yna ddau ohonynt, yr hyn a ddywedai. Er mwyn ei orfodi i ddatgelu mwy o wybodaeth ynglŷn â lle yn union yn y tŷ yr oedd yn cadw ei arian dechreusant ymyrryd ag ef yn araf deg trwy dynnu ei ddillad oddi amdano a'i daflu ar draws y gwely a'i rwymo, draed a dwylo, drwy roi rhaff wrth yr erchwynion, dal lamp losgedig o dan ei draed a'i goesau noeth, eu hongian dros y gwely, rhoi carpiâu wedi eu trochi mewn oel lamp ar ei fynwes ac am ei draed a'u tanio, nes ei losgi yn ddychrynlyd.

## Y Trefnydd .....

Chlywais i erioed am ail atgyfodiad, ond dyna'r broliant pan lansiwyd 'Y Trefnydd' am y trydydd tro yn 1932. Roedd y cylchgrawn yn hollol ddiethr i mi, a does gen i ddim gwybodaeth ynglŷn a phryd y daeth y cylchgrawn o'r wasg am y tro cyntaf na chwaith am yr 'atgyfodiad' cyntaf. Ond mae'n ymddangos na fu'r ail atgyfodiad yn llewyrchus iawn chwaith, a diflannodd y cylchgrawn a gwireddu rhybudd y golygydd: "Os bydd farw eto, na all ddisgwyl atgyfodiad mwy. Gormod treth, hyd yn oed ar ofergoel, fyddai priodoli naw einioes i gylchgrawn!"

Ond cylchgrawn i bwy oedd Y Trefnydd? Mae'r frawddeg gyntaf yn rhifyn cyntaf Chwefror-Ebrill 1932 yn egluro: "Llawenydd digymysg i ni yw medru cyflwyno i'n darllenwyr rifyn cyntaf cyfres newydd Cylchgrawn Chwarterol Cylchdaith Wesleidd Caernarfon." Ac yr oedd y Gylchdaith yn cynnwys eglwysi Wesleidd holl bentrefi bro'r "Eco" yn ogystal a rhai tref Caernarfon, Y Felinheli a Dyffryn Nantlle.

Fel yn hanes pob cylchgrawn - a phob papur bro o ran hynny, - roedd "tair elfen anhepgor" i sicrhau llwyddiant: cyflenwad digonol o hysbysebion i gyfrannu at y costau, pris rhesymol (tair ceiniog oedd pris Y Trefnydd), a gweithwyr i hybu gwerthiant. Diddorol nodi mai busnesau o dref Caernarfon yn unig sy'n hysbysebu, a'r cyfan bron yn uniaith Saesneg. Ond roedd y County Boot Stores, Stryd y Llyn wedi ei gweld hi, ac yn ymwybodol mai chwarelwyr y fro hon fyddai llawer o'u cwsmeriaid. Maent yn apelio arnynt trwy ddatgan, mewn llythrennau breision "O BWYS I CHWARELWYR. Mae gan y masnachdy uchod ESGIDIAU GWAITH o'r gwneuthuriad gorau." Ac er gwaethaf eu broliant - "If it's good, it's here: If it's here, it's good" - fyddai siop megis Nefydd-Jones ddim yn gwneud fawr o fusnes heddiw yn gwerthu sigarets, cigars a baco, er fod ganddynt dros 800 o

Ar ôl i'r mileiniaid dreulio dwy awr a mwy yn trafod Dafydd Jones a throi a throsi popeth yn y tŷ, hwy a ffoasant ymaith, gan gloi y drws a mynd â'r agoriad gyda hwy, a'i adael wedi ei rwymo ac yn dri chwarter marw yn y tŷ. Mae'n siŵr y byddai'r creadur wedi rhoi yr oll a feddai i beidio dioddef yr yn a wnaeth. Ond doedd ganddo ef yr un cant yn fwy na \$4 a hanner yn y tŷ, er ei fod yn werth llawer o filoedd.

Ymhen tua dwy awr ar ôl i'r lladron fyned ymaith, llwyddodd i ddod yn rhydd o'i gadwynau ac aeth allan trwy ffenestr ac i'r ysgubor, lle y bu'n cuddio hyd y bore. Yna ar doriad y wawr neidiodd ar gefn ei geffyl i dŷ Mrs Ellan Closs, priod John Closs, gynt o Genegwen, Llanberis, oedd yn byw gyda'i meibion rhyw filltir i ffwrdd (Dydw i ddim yn rhy siŵr pwy oedd pwy yn nheulu y Clossiaid, ond yr oedd yna Humphrey E. Closs (1841-1885) hefyd o Lanberis oedd yn byw yn yr un ardal â Dafydd Jones yn Blue Springs. Diddorol fyddai i rhai o ddisgynyddion teulu Closs ymateb.)

Yr oedd yn syndod i bawb sut y gallodd Dafydd Jones symud o'r tŷ ac yntau wedi llosgi mor ddrwg. Ond cafodd y gofal gorau gan Ellen Closs a chymdogion eraill, ynghyd â chymorth meddygon mwyaf medrus y gymdogaeth, ond i gyd yn ofer mewn ymdrech i'w gadw'n fyw. Trodd ei ddoluriau yn waed-wenwyniad, a bu farw ymhen naw diwrnod wedi'r ymosodiad.

wahanol fathau mewn stoc!

Materion yn ymwneud â'r Wesleaid sydd yn y cylchgrawn wrth gwrs; adroddiadau o wahanol bwyllgorau a chyfarfodydd y Gylchdaith, ond mae'r newyddion o'r gwahanol eglwysi yn gallu bod yn eithaf diddorol. Yng Nghaernarfon, er enghraifft, cafwyd anerchiad gan Mr J.E. Jones, Trefnydd y Blaid Genedlaethol Gymreig ar 'Ymreolaeth i Gymru', gyda thrafodaeth yn dilyn. A phwy tybed oedd Miss Lizzie Owen, ventriloquist, a fu'n diddori mewn cyfarfod arall? Yn Llanberis, cynhaliwyd "Social fawreddog" yn Ffestri Preswylfa, ac elw o £16, ac "ni chlywyd bod neb o'r blaen wedi gwneud cymaint o elw mewn Social yn Llanberis". Tybed gafodd y record honno ei thorri? Ond os oedd Wesleaid Llanberis yn brolio iddynt wneud elw o £16 - y mwyaf erioed o fewn y pentref, yna cysidwrch lwyddiant "Te Mawr" Seion, a wnaeth elw o dros £14 "er garwed yr hin" ym mis Medi. Yn Llanrug, bu ethol swyddogion yng Nghapel Hermon. Chlywais i erioed am gymaint o amrywiol enwau ar y gwahanol swyddogion. Tybed beth oedd gwaith 'blaenor cynorthwyol' neu 'flaenor rhestr y plant', heb son am 'poor steward'? Welais i ddim cyfeiriad at swyddi tebyg mewn unrhyw un o gapeli eraill y Gylchdaith.

Gall cyfrolau o gylchgronau fel Y Trefnydd fod o ddiddordeb arbennig i'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes teulu, oherwydd ym mhob rhifyn ceir gwybodaeth am fedyddiadau, priodasau a marwolaethau, gyda chofiant byr i bob aelod a fu farw. Yn chwarterol hefyd ceir bywgraffiad o rai o aelodau'r gwahanol eglwysi sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr am eu cysylltiadau teuluol, yn ogystal a llun.

Mae'r gyfrol, sy'n cofnodi'r cyfnod o Chwefror 1932 hyd Awst 1934 bellach ar gadw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon.



## FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis  
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN  
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

## BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR  
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT  
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.  
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-  
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

## Dosbarth WEA Y Waunfawr .....



Gan Gwilym Morris Jones, Bontnewydd y daeth y llun ac enwau aelodau'r dosbarth. Athro'r dosbarth oedd Cynan, a bu'n cynnal dosbarthiadau yn Neiniolen hefyd yn ystod y 1960'au. Roedd dosbarthiadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn boblogaidd iawn yn y cyfnod hwn, ond am rhyw reswm, wrth yr enw Saesneg, WEA, yr oeddent yn cael eu hadnabod.

Mae'r llun yn dangos dosbarth y Waunfawr ar y wibdaith ddiwedd tymor yn ymweld a'r Lon Goed, ac yn sefyll wrth ddrws Capel y Beirdd. Y dyddiad oedd 3ydd o Fehefin 1961. Nid yw'r aelodau i gyd yn y llun. Dyma'r enwau a gofnodir ar gefn y darlun: J.Awstin, Cynan, gwraig o Ddeiniolen (all rhywun ei hadnabod?), Mrs J.

Awstin, Mrs Idris Owen, Glyn Owen, T.A. Thomas, Capten Harri Lloyd Jones, Glyn Jones, Miss Rhiannon Ellis, Emlyn Davies.

Mae'r sylw hwn wedi ei ysgrifennu ar gefn y darlun hefyd: "Daeth yr Henadur William George a'i fab, W.R.P.George i'n cyfarfod. Diwrnod a digon o hwyl; tywydd braf, picnic ar y Lon Goed a Noson Lawen ym Meddgelert."

Digwyddodd lai na thrigain mlynedd yn ol, ond mae'n swnio fel petai'n perthyn i gyfnod pell, pell yn ol. A phwy fyddai'n dychmygu cael noson lawen ym Meddgelert heddiw?

Oes mwy o atgofion am ddosbarthiadau WEA yn y fro?

## Mwy o Englynion Bedd .....

Doeddwn i ddim yn disgwyl cael gwybodaeth am y ddau englyn ym mynwent Llanddeiniolen a'r rheini'n dyddio o 1792, ond fe ddaeth!

Gohebydd Brynrefail, Lowri Prys Roberts anfonodd ataf yn nodi fod y Margaret Edward a goffeir ar y garreg fedd yn chwaer i'w hen, hen, hen daid, sef Thomas Edward. Roedd Margaret a Thomas yn blant i Edward Prys, ac yntau'n un o'r chwe cyntaf o'r ardal i gloddio am lechi ar lethrau'r Elidir tua 1770. Lowri, 7 cenhedlaeth yn ddiweddarach, oedd y cyntaf i gario'r enw Prys yn y teulu ers hynny ac felly clywodd lawer o drafod ar y goeden deuluol oherwydd yr enw. Mae'n rhyfeddol meddwl fod dwy ganrif a chwarter wedi mynd heibio, ond fod cysylltiadau teuluol yn parhau yn yr un ardal. Ond, ar hyn o bryd, does dim gwybodaeth ynglyn a pham mae enw cartref y gwr a'r wraig yn wahanol. Ond addawodd Lowri wneud mwy o waith ymchwil i hanes ei theulu, ac efallai y cawn wybod yn rhifyn Hydref!

Daeth cais hefyd ynglyn ac englyn bedd arall; hwn hefyd ym mynwent Llanddeiniolen, ond nid mor hynafol a'r llall. Mae'n dyddio o 1952, ac felly mae'n eithaf posib fod aelodau o'r teulu yn dal yn yr ardal neu fod eraill yn yr ardal allai gynnig gwybodaeth. Y tro hwn mae'r cais yn holi am awdur yr englyn yn hytrach nac am yr ymadawedig. Mae'n englyn crefftus, yn disgrifio cylch bywyd o fewn un diwrnod, ac yn coffau Richard Rowlands a fu farw 28ain o Awst 1952.

Yn fore y llafuriodd – trwy y nawn

Hyd hwyr nos y gweithiodd;

Yna'i drem i'r nef a drodd

A'i gorff ysig orffwysodd.

Pwy felly yw awdur yr englyn?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



**CYDYMDEIMLO:** Rydym fel cymuned yn cydymdeimlo gyda Janice, Julia a'u teuluoedd yn y golled drom o golli eu tad Hefin Mummery, Penrhos, Bethel. Roedd hyn gwta dau fis ers colli eu mam Jean. Un parchus iawn oedd Hefin, parod ei sgwrs a daeth nifer o gyfeillion a chyn-weithwyr o Ferodo draw i'r angladd. Roedd Hefin a Jean wedi byw ym Mhenrhos ers 60 o flynyddoedd.

**Llongyfarchiadau** I'r ieuencid o'r pentref fu'n aelodau o gorau gafodd lwyddiant yn yr Eisteddfod. Ar sawl lefel, 'Eisteddfod yr Ifanc' oedd hon, gyda'r safonau yn anhygoel o uchel.

**CRONFA MYNWENT EGLWYS St. DEINIOL, LLANDDEINIOLEN, 2017**

Mae costau cynnal a chadw'r fynwent yn gwbwl ddibynnol ar gyfraniadau fel y rhai nodir isod. Os oes gennych fedd y teulu yn y Fynwent buasem yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad. Gellir eu gyrru i'r Trysorydd : Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel, Caernarfon LL55 3AA. Unrhyw sieciau yn daladwy i 'Gronfa Mynwent Llanddeiniolen'. Fe gydnabyddir pob cyfraniad. Diolch i'r isod am eu cyfraniad hael.

Dylan Edwards/ Gareth Jones, Deiniolen (£150), Mrs. C.A.Lowe, Epworth, Lincs. (£100), Mr./Mrs Emyr Roberts, Groeslon (£100), Di-enw (£100), Mr./Mrs. Gwynedd Hughes, Southport (Lodge Coed Bolyn (£75), Dilys Jones, Llanberis (£30), Mrs. Myra Griffith, Penisarwaun (£30), Mrs. Eleanor Jones, Cremlyn, Bethel (£30), V. Smith, Altrincham (£25), Mrs. M.B. Pierce, Llanrug (£25), Mr./Mrs. E.R. Jones, Tregarth (£25), Mr./Mrs. Ieuan Williams, Bethel (£20), Mrs. Dilys Parry, Rhiwlas (£20), Mr. Elwyn Williams, Cranleigh, Surrey (£20), Mrs. M. Roberts, Caernarfon (£20), Ann Ellis Williams/ Ieuan Ellis Jones, Bethel (£20), Mrs. Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel (£20), Mrs. Ann Hughes, Y Bwthyn, Llanrug (£20), Mrs. Phyllis Jones, Cyffordd Llandudno (£20), Gwynfor/Edwina Morris, Bethel (20), Eurgain Jones, Y Rhos, Bethel (£15).

**DIWEDD CYFNOD**

Dymunwy gorau i'r disgyblion fydd yn trosglwyddo o'r sector gynradd i'r uwchradd dechrau

Medi. Diolch i ddisgyblion Bl. 6 sydd yn gadael am eu cyfraniad tu fewn a thu allan i furiau'r ysgol dros y blynyddoedd. Diolch hefyd am eu cyflwyniad 'ymadael'. Fel arfer, roedd o safon uchel yn gymysg o'r difrif a'r digri. Mae cryn dalent yno. Yr oedd dagrau y plant - a rhai o'r rhieni - yn dyst i gyfraniad yr ysgol i ddatblygiad y disgyblion. Mae rhai o aelodau'r staff hefyd yn ymadael. Diolchwn iddynt am eu cyfraniad, a dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol. Yn sicr, gall disgyblion yr ysgol dystio i gyfraniad Pennaeth a Staff sy'n anelu i roddi iddynt "y dysg tu hwnt i'r desgiau."

Yn yr un modd dymunwn y gorau i'r rhai sydd wedi gorffen eu haddysg ffurfiol ac yn symud ymlaen unai i'r gweithle neu goleg.

**CYNGOR CYMUNED I FETHEL/ SEION?**

Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa i drafod syniad y Cyng. Sion Jones i gynnig sefydlu cynghor uchod. Siomedig iawn oedd y nifer a fynychodd (rhyw 15) ar fater mor bwysig, ond diolch iddynt am drafodaeth agored. Esboniodd y Cyng. Sion Jones fel roedd Bethel wedi derbyn grantiau sylweddol yn y cyfnod diweddaraf â alluogodd gweld gwelliant sylweddol yn safon y Neuadd Goffa, Y Maes Peldroed, Cae Chwarae ac ambell glwb/mudiad arall. Esboniodd fel bod y ffynnonellau yma o grantiau boed o'r Cynulliad, Loteri neu'r Cyngor Sir wedi hen sychu fyny. Efallai buasai tebygrwydd o fwriad y Cyngor Sir ar adeg yma o lymder yn trosglwyddo cyfrifoldebau am bethau fel mynwentydd a chaeau chwarae i'r cyngor arfaethedig newydd. Rhoddodd Sion fraslun o rhai o'r datblygiadau yr oedd am geisio eu cyflwyno ar gyfer Bethel/Seion. Yr oedd yn hyderus y gallai wthio'r cwch i'r dŵr gyda threth o thua £25 ar ben y dreth gymunedol a phlisma. (Treth bresennol Llanddeiniolen yw £11).

Siaradodd y ddau Gynghorydd Cymuned presennol o Gyngor Llanddeiniolen sef Richard Llwyd Jones a Gareth Griffith. Roeddent yn cydnabod gwaith caled Sion dros y cyfnod yn enwedig yn denu y fath arian. Rhoddodd y ddau fraslun o gost presennol rhedeg cyngor cymunedol. Cyfeirwyd at yr elfennau statudol fel cyflog/

treuliau Clerc ac insiwrans. Yna cyfrifoldebau cynnal a chadw llwybrau, lampau (rhyw £1500 yr un), graeanu, cysgodfannau bysiau.. Bu cyfraniad hael dros y blynyddoedd tuag at gysgodfannau Bethel ble bu cryn ddifrod. (Braf cyhoeddi fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn). Cyfeirwyd hefyd at y rhoddion hael o gymharu â chynghorau cyfagos i gymdeithasau/ clybiau yr ardal. Ym mlwyddyn ariannol 2016 roedd 33% o wariant y cyngor wedi dod i Fethel. Mae poblogaeth Bethel/Seion rhyw 18% o boblogaeth y plwyf. O gofio maint y gost o gefnogi rhai o'r syniadau - boed yn glodwiw neu beidio - roedd y ddau gynghorydd yn amau yn gryf os buasai £25 o dreth yn ateb y gofynion, ac o'u cefnogi mai codi y dreth yn flynyddol fuasai rhaid. Yn amlwg ni fuasai unrhyw gynghor cymuned yn gallu cynnal gwariant ar y fath lefel.

Cafwyd cyfraniadau o'r llawr mewn trafodaeth agored a chreadigol. Tueddiad y 'gynulleidfa' oedd i ymwrthod â'r cynnig. Serch hynny, roedd y rhai oedd yn bresennol yn bendant o'r farn bod cyfle yma i gryfhau syniad o 'gymdogaeth' a hefyd clywed 'lais y bobol'. Gwnaed cynnig o'r llawr fod bwriad i wyntyllu y syniad o 'bwyllgor cymunedol' fuasai yn gynhyrchiolaeth o wahanol agweddau/ cymdeithasau / clybiau yr ardal. Derbyniwyd y cynnig gan y Cyng. Sion Jones a gobeithir galw cyfarfod cyhoeddus i'r perwyl yn y dyfodol agos. Dyma gyfle yn sicr i wyntyllu elfennau o ddatblygiad a chryfhau ein cymuned.

**DIOLCH O GALON**

Dymuna Jennifer, Aled a Ceri 26 Y Ddôl ddiolch i'r llu o gyfeillion a theulu ddaeth i gyd-gerdded gyda hwy yn Llandudno ar ddiwrnod 'Walk to D'feet MND'. Diolch i'w hymdrechion a'u nawdd cyfranwyd y swm anhygoel o £6002.50 er cof am Meic i gronfa Grwp MND Gogledd Orllewin Cymru.

**CYHOEDDIADAU'R SUL**

Mae ambell un wedi gofyn i mi gynnwys rhestr misol o bregethwyr capeli Bethel, fel sy'n ymddangos dan newyddion pentrefi eraill. Os bydd swyddogion y capeli yn barod i drosglwyddo'r wybodaeth ymlaen yna byddaf

yn fwy na bodlon i'w cynnwys. Wedi'r toriad dros mis Awst, braf fuasai gweld cynnydd mewn mynychu oedfaon. Mae croeso i unrhyw un yn y tri chapel fel ei gilydd. Dewch draw i godi'r ysbryd.

**CROESO**

Braf cyhoeddi bydd gweinidog arall yn ymddangos yn y pentref o fis Medi ymlaen. Bydd y Parch. Richard Gillian o ardal Caerdydd yn cael ei sefydlu i warchod preiddiau y drefn Wesleiaidd yma yn Arfon. Bydd yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Gwynfor Williams hyd y Nadolig cyn cymeryd yr awennau'n llawn bryd hynny. Croesawn ef i'n plith gan ddymuno pob llwyddiant iddo yn y 'winllan'.

**HAELIONI ELUSENNOL**

Dymuna Mary Evans, Stad Bro Eglwys ddiolch yn ddiffuant i'r nifer a gyfranodd mewn unrhyw ffordd i drefnu ac a gefnogodd y Tê Mefus a gynhaliwyd er lles elusen Cancr y Fron. Llwyddwyd i drosglwyddo elw o £800 i'r elusen.

**DIOLCH**

Yn ddiweddar bu tair o gymwynaswyr y pentref yn dathlu eu penblwyddi yn 80 oed. Bu sawl cymdeithas, mudiad, capel ac Ysgol Sul yn elwa o'u cefnogaeth ac ymdrechion dros sawl blwyddyn. Penblwyddi hapus ferched.

Ar ddydd ei phenblwydd cludwyd Nan Owen, Berwyn i'r ysbyty. Ni bu Nan yn dda ei hiechyd yn ddiweddar, ond braf cofnodi ei bod gartref bellach. Ymunwn gyda Carys, Harri a'r teulu i ddymuno'r gorau iddi.

Dymuna Bet Owen ddiolch i Seiriol a'r teulu, ynghyd a nifer o gyfeillion am y cardiau, anrhegion, yr 'hwyl', cyffro ar crwydro wrth ddathlu ei phenblwydd. Cerdded ymlaen i'r 100 rwan Bet!

Yn yr un modd mae Elizabeth Evans, Pen Parc yn dymuno diolch i'r plant, ffrindiau a chyfeillion lleol am eu haelioni. Cafwyd gryn hwyl, sgwrsio a hel atgofion yn y te parti ym Mhen Parc ac yng Nghlwb Golf Caernarfon. Llongyfarchiadau iddi am ddod yn hen-nain eto yn ddiweddar.

Daeth i dair ddydd gweld wyth deg, - yn eu byw i bawb, hwy fu'n anrheg. Hyd oriau taith, brwydro teg a'u haelioni'n delyneg.

## 'LLAIS' I'R DYFODOL



Un a gyfranodd a mwynhaodd y Genedlaethol eleni oedd Tomos Gibson, 11 oed o Stad Tan-y-Buarth. Mae Tomos yn aelod brwdfrydig o Gôr Ieuenctid Môn, côr a ennillodd Dlws Côr yr Ŵyl. Fel rhan o'r côr cymerodd ran yn y rhaglen nodweddd arbennig am Hedd Wyn ar nos Wener gyntaf yr Ŵyl. Yn unigol – er ond yn 11 oed – roedd yn un o'r 44 fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth yr Unawd o Sioe Gerdd dan 19 oed. Ni chafodd lwyfan ond yn sicr dyma brawf o'i hyder ar gyfer y dyfodol. Roedd Tomos yn edrych ymlaen i wneud slot unigol ar lwyfan Gŵyl Bethel. Uchelgais Tomos yw dilyn gyrfa ym myd y Sioeau Cerdd. Y nôd fydd ennill lle yn un o'r Colegau Cerdd sy'n arbennigo yn y maes gystadleuol yma.

Ar droad y flwyddyn roedd Tomos wedi cystadlu yn y gyfres deledu The Voice For Kids UK. Roedd hyn yn golygu teithiau i stiwdio ITV yn Llundain a Manceinion. Roedd 15 000 wedi dechrau'r daith yn ymgiprys am y tlws oedd yn sicr o agor drysau. Gyda pherfformiad aeddfed iawn o gân Kelly Clarkson 'Piece by Piece' cafodd Tomos gryn ganmmoliaeth gan y beirniad oedd yn cynnwys Will I am, a llwyddo i gyrraedd y 70 olaf yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp. Dymunwn yn dda i Tomos, ac rwyn siwr y buasai un tenor safonol – ei daid, y diweddar Huw Edwards – yn hynod falch ohonno.

## Cyn aelod o Fand Pres Cenedlaethol Cymru yn cyfarfod ag aelod presennol



Bu Dewi Griffiths yn aelod o'r Band am chwe mlynedd, ac erbyn hyn mae'n un o'r tiwtoriaid. Mae Owain Llestyn Thomas wedi mynychu'r Band ers 2015, a braint ac anrhydedd iddo eleni oedd cael ei ddewis i sedd y prif gornetydd, dipyn o gamp ac yntau ddim ond yn 16 oed. Roedd y ddau wedi mwynhau y cwrs yn fawr iawn, ac uchafbwynt y chwe diwrnod o waith caled oedd cyngerdd ym Mhafliwn y Grand, Porthcawl, dan arweiniad Ian Porthouse gyda Dewi yn unawdydd gwadd. Mae'r Band yn cyflwyno yr un rhaglen eto, yn agosach i adref y tro hyn, a hynny ar Fedi 16 yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy, fel rhan o Ŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru.

**Clwb Bro Bethel** Bydd cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth, Medi Sed, am 2.00 yn Festri Cysegr. Y Parchedig Harri Parri fydd yno, felly dewch draw i wrando ar sgwrs a chael cyfle i gymdeithasu dros banad ar y diwedd. Croeso cynnes i unrhyw un ymaelodi a mwynhau amrywiol sgysiau, gweithgareddau, cinio Nadolig a gwibdaith.

## Urddo tri:



Bu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni yn garreg filltir nodedig a diddorol i deulu Bryn Ogwen, Bethel. Derbyniwyd tri aelod o'r teulu, sef Deilwen (Hughes) a Siôn Elwyn a Manon Elwyn, yn aelodau drwy radd i'r Orsedd ar fore Llun yr Eisteddfod gan yr Archdderwydd, Geraint Llifton. Y pnawn hwnnw, yn ystod seremoni'r Goron, roeddent ar lwyfan yr Eisteddfod ymhlith y Gorseddogion eraill, gan gynnwys Elwyn, a dderbyniasai'r Wisg Wen yn Eisteddfod Llanelwedd ym 1993. Tybed a fu erioed bedwar aelod o'r un teulu fel hyn yn aelodau o'r Orsedd yr un pryd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol?



## Parhad BETHEL

Am y tro cyntaf, roedd Pwyllgor Gwyl Bethel wedi penderfynu cynnal wythnos o ddigwyddiadau yn cychwyn o ddydd Llun, yn hytrach 'na o nos Fawrth. Cafwyd noson wych gyda'r cystadlaeuath pool, a llongyfarchiadau i chwaraewr o Fethel am guro y £50.00 wrth ennill, Mark Jones.

Mi roedd hi'n wythnos llwyddiannus iawn, ond blinedig iawn hefyd i'r pwyllgor wrth trio trefnu bopeth a digwyddiadau gwahanol.

Roedd dydd Sadwrn yn ddiwrnod gwych i Fethel, ble roedd nifer o artistiaid a cantorion lleol yn canu, a gwelwyd nifer o drigolion yn cymryd rhan yn y cystadlaethau gwisgoedd ffansi.

Heb weld ffigyrau cadarn eto, mae'n edrych fel bod yr Wyl wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ariannol, yn dilyn yr her llynedd o fethu allan ar y dydd Sadwrn. Mae costau rhedeg Gwyl Bethel yn £4,500, sy'n rhoi pwysau enfawr ar y Pwyllgor i drïo i'w chynnal. Ond rydym yn hynod falch o allu cyfro ein costau, ac gwneud elw, hefyd wrth godi arian at elusen Motor Neurone nos Wener gyda'r noson caws a gwin.

Hoffwn ddweud diolch enfawr i'r holl gwirfoddolwyr sydd wedi cefnogi yr Wyl mewn un ffordd neu'r llall. Os yw'n helpu gosod a chynnal y noson pool nos Lun, neu gwirfoddoli yn y noson rhedeg, neu dydd Sadwrn ei hyn, mae cefnogaeth y gymuned ar gyfer yr Wyl yn un hanfodol ar gyfer ei chynnal. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r brif Bwyllgor, gyda ein Cadeirydd Ian Jones am rhoi cefnogaeth hynod bwysig i rhediad yr wythnos, i'n trysorydd Sion Williams am rhoi arweiniad ariannol i'r Wyl, ond hefyd am yr holl waith trefnu yn ystod y flwyddyn, ac pob dydd yn yr wythnos. I Anest Parker-Jones am gefnogi a rhoi gymaint o oriau fewn i'r Wyl, Ynyr Hughes, Kelly Roberts (a Rhys a Lois!), Gwenan Hughes, Ella Wyn Jones a Nia Campbell. Hoffwn hefyd ddweud diolch arbennig i Marcus Robinson am drefnu noson wych nos Wener, ac i bawb sydd wedi cyfranu at yr Wyl. Diolch o galon.

Hon yw'r Sed flwyddyn o fod yn rhan o Bwyllgor yr Wyl imi fel ysgrifennydd, ac dwi'n cymryd cam yn nol am y flwyddyn nesaf i rhoi amser i ddatblygu prosiectau eraill yn y gymuned.

Diolch yn fawr iawn  
Sion

**Llongyfarchiadau** i Siôn Elwyn a Manon Elwyn, Bryn Ogwen, ar eu penodi i swyddi gyda Chyngor Gwynedd. Fis Ionawr diwethaf, penodwyd Manon yn gyfieithydd yn Adran Gyfieithu'r Cyngor. Ym mis Gorffennaf, derbyniodd Manon radd M.A. (gyda Rhagoriaeth) yn y Seremoni Raddio ym Mhrifysgol Bangor ar ôl dilyn cwrs mewn Ysgrifennu Creadigol yn Adran Gymraeg y Coleg. Ac mae Siôn, yntau, wedi dwy flynedd yn Athro Cymraeg, wedi newid cyfeiriad ar ôl cael ei benodi'n Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg gyda'r Cyngor.

## GWYL BETHEL

Wedi'r holl baratoi a chynllunio daeth yr 'wythnos fawr' yma ym Methel. Nid ar chwarae bach mae mentro llwyfannu wythnos o weithgareddau amrywiol, ond unwaith eto rhaid llongyfarch a diolch i'r pwyllgor gweithgar a'r di-flino Sion Jones am ddarparu'r wledd. Bwgan pob menter fel hyn yw'r tywydd ac fel yr Eisteddfod, amrywiol iawn fu hi, ond roedd brwdfrydedd y cefnogwyr ffyddlon yn creu eu gwres eu hunain. Y llynedd rhoddwyd cyfraniad o £400 tuag at elusen Awyr Las, a chyhoeddwyd mai'r elusen ddewisiedig ar gyfer eleni oedd Elusen Ymwybyddiaeth Motor Neuron.


Daeth awyrgylch y Crochan i'r Neuadd Goffa ar y nos Lun agoriadol gyda chystadlaeuath Pwll yr Wyl. Gyda timau pŵl a snwcer yn y pentref doedd dim syndod fod 32 wedi cystadlu. Cafwyd sawl gêm agos ar y ffordd i'r rownd derfynnol. Y ddau a wynebodd eu gilydd - y gorau o dair rac - oedd Mark Jones ac Ioan Roberts. Fel pob ffeinal dda aeth hi yn 1-1 cyn i Mark ennill y drydedd gêm. Roedd safon y gemau yn dda, a diolch hefyd i'r gŵr camera â alluogodd nifer i weld y gêm ar Facebook.

Cyfle i'r ieuencid ac ambell i berson 'fythol ifanc' oedd hi nos Fawrth i chwysu yn y Disgo â gynhaliwyd yn y Marci ar y Cae Chwarae. Roedd pawb wedi mwynhau, a diolch hefyd i'r rhai fu'n torri'r glaswellt ar gyfer yr achlysur.

Noson y dewr oedd hi nos Fercher gyda'r ras 7Km. Daeth y gwynt cryf a'r glaw i wynebu a herio'r rhedwyr. Ond ymlaen aeth y râs, gyda'r gwynt tu cefn i ddechrau ac yna troi i wynebau'r rhedwyr rhwng Felin a Bethel. Eto caed cefnogaeth gan Glybiau Rhedeg swyddogol a mentrodd nifer o bentrefwyr hefyd. Braff gweld dylanwad y Clwb Rhedeg lleol yma ym Methel yn gwneud ei farc. Yn sicr, mae yn rhoi cyfle i redwyr ifanc ddatblygu ffirwydd a thechneg ac yn eu herio. Mae Bro'r Eco bellach yn arweinydd mewn cynnig cyfleuon i redwyr o bob oed. Er y ddrycin cafwyd amseroedd rhyfeddol yn y brif râs, gyda Jonathan Tyler yn ennill râs y dynion mewn amser o 23m 49e a Gemma Moore o Glwb Rhedwyr Gogledd Cymru y ferch gyntaf adref mewn amser o 27m15e. Diolch arbennig i'r sawl un a safodd yn y glaw i stiwardio'r râs.

Roedd pawb yn awyddus am 'house' ym Methel ar y nos Iau - a hynny heb hawl cynllunio. Ie, yn y Marci, roedd yn noson y Bingo. Wn i ddim os bu'r 'two fat ladies', 'Maggie's Den' na'r 'top of the shop' yn help i ennill y celc, ond unwaith eto cafwyd noson hwyliog. Diolch i'r dorf luosog gwnaed elw o £1000 ar y noson.

Mae'r nos Wener yn un o uchafbwyntiau yr Wyl gyda'r Marci o hyd yn llawn. Dyma noson y 'caws a'r gwin' ac ambell I ddioydd eraill. Daw Marcus Robinson draw i gyflwyno y gwinoedd dewisiedig gan nodi eu rhagoriaethau ac hefyd ychydig o hanes a chefnidir datblygiad y gwinoedd. Un gwin gwyn, un Rosé a dau win coch oedd yr arlwy eleni gyda digon o gaws yn gydymaith blasus. Diolch i ambell fusnes oedd wedi noddï y noson. Braff hefyd yw croesawu y grwp adloniant ers tair blynedd bellach sef Monsŵn. Parti o gantorion dawnus yw'r rhain gyda'r mwyafrif o'r aelodau yn canu mewn corau o boptu'r Fenai. Mae ganddynt restr dda o ganu poblogaidd sy'n denu'r gynulleidfa i gyd-ganu'n braff.



**GWAITH  
COFFAOL  
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith  
(01286) 672898**

**Cartref  
(01286) 871833  
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

**Dylan Griffith**  
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

Gwaith Cerrig Beddi  
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol  
24 Awr y Dydd  
Capel Gorffwys Preifaf  
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

**Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)**

**Hefyd**



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**  
Cyraeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*  
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

## Merched y Wawr



Daeth gweithgareddau'r flwyddyn eleni i ben gyda Dathlu'r Aur ein cangen.

Cafwyd trip i ben yr Wyddfa ar Fehefin 17eg gyda 35 ohonom yn cychwyn ar y trê'n 2 o'r gloch. Clywyd seiniau o 'awn ar y trê'n bach' yn atsain o'r trê'n wrth iddi wneud ei ffordd draw at y Ceunant Mawr a'r teithwyr eraill ddim yn siwr iawn beth oedd yn mynd ymlaen! Hwyl a sbri go iawn a phawb yn brysur hefo'i camerau yn gwneud yn fawr o'r goygfeydd godidog. Ni faswn wedi cael gwell diwrnod i fynd os byddai wedi bod yn bosib ei ordro.

Cyrraedd y copa a gweld Cecille, oedd wedi cerdded i fyny yn ein disgwyl gyda gwen fawr ar ôl ei hantur yn cerdded i fyny am y tro cyntaf, da iawn hi.

Saib wedyn o hanner awr a phawb yn brysur yn tynnu lluniau, dringo i'r copa, cael ambell anrheg ac wrth gwrs sgwrsio hefo hwn a llall.

Yna i lawr a ni i bentre bach Llanber a draw i'r Fictoria lle cawsom 'de bach' bendigedig.

Ew roedd y baned yn dda, a'r brechdanau a'r cacennau yn flasus dros ben, gyda phopeth yn cael ei weini'n hyfryd iawn, diolch yn fawr iawn i staff y Fictoria.

Lluniau o'r diwrnod ar y wefan, [mywbethel.org](http://mywbethel.org)

Wedi'r gwledda cawsom anerchiad olaf ein llywydd Gwyneth.

Diolchodd i bawb am yr holl waith gafodd ei wneud drwy gydol y flwyddyn, a'r holl wirfoddolwyr parod eu cymwynas.

Cydymdeimlwyd â Jen a'r teulu ar golli Meic mor sydyn, cofion annwyl iawn atoch.

Hefyd cofio am ein haelod Sheila, hithau wedi ei chymeryd yn sydyn iawn, cofion at Lynn, David a'r teulu yn eu colled o fam a nain annwyl.

Llongyfarchiadau i Liz Pen Parc a Bet y ddwy yn dathlu penblwydd arbennig iawn (tydy nhw'n edrych yn dda am 80!) ac i Glenys, ond doedd dim un arbennig iddi hi.

Mabel a Tomos Alun yn dathlu priodas aur ac yn dod yn Daid a Nain i Efa Mai.

Sion Garth mab Anita wedi dyweddio hefo Rachel, dymuniadau gorau i chi.

Bydd Gwyneth Jones, (Pentir) yn cael llawdriniaeth dechrau Gorffennaf, dymuniadau gorau iddi hi hefyd.

Llongyfarchiadau i'r tim Bowllo Deg ddaeth yn fuddugol yn nhwrnament Gogledd Cymru, tipin o gamp, a da iawn chi ferched. Cyflwynwyd rhodd i Jen fel arwydd o ddiolch am ei gwaith yn diweddarau'r wefan, sydd werth ei gweld, diolch yn fawr iawn I ti Jen.

Mair Read a Gwyneth Williams oedd enillwyr y raffl y tro hwn.

Atgoffwyd yr aelodau am yr apel am deis, bagiau, ategolion a gemwaith at Achub y Plant, fydd yn cael eu gwerthu yn yr Eisteddfod ym Môn eleni.

Bydd Penwythnos Preswyl MYW yn cael ei gynnal yn Aberystwyth eleni

8-10fed o Fedi a'r gost yw £240. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch âg Eirlys.

Bydd Cinio Dathlu'r Aur y Rhanbarth yn y Celt ar yr 8fed o Orffennaf.

Aeth Anne Gwyneth a Mary draw i'r Parc i Arddangosfa'r Aur ar Fehefin 21ain ac roedd yn werth mynd i weld y Paneli a'r atgofion dros y 50 mlynedd a aeth heibio. Bydd yn bosib eu gweld yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol.

Gobeithio i bawb fwynhau'r flwyddyn a aeth heibio, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lewyrchus arall i'r gangen.

**MODURDY'R WYDDFA**  
**Snowdon Garage**  
 LLANBERIS

**M.O.T**  
**GWASANAETH**  
**CYNNAL A CHADW**

**(01286) 870225**



**AVW** **WORKSHOP** **BOSCH Service**

Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** **MOT TESTING STATION**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - [www.AVWBosch.co.uk](http://www.AVWBosch.co.uk)



### Llwyddiant yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd

Llongyfarchiadau enfawr i'r canlynol ar eu llwyddiant yn y cystadlaethau llenyddol eleni :

Rhianwen Williams - 1af araith dan 19

Buddug Roberts 2il - araith dan 19

Buddug Roberts - 1af - cyfreso o ymsonau dan 19

Twm Herd - 3ydd, Rhyddiaith Bl 10-11

Leisa Gwenllian - 2il, rhyddiaith Bl 10-11

Mae Rhianwen a Buddug yn astudio Cymraeg Lefel A ar hyn o bryd a Leisa a Twm yn astudio Cymraeg TGAU iaith a llenyddiaeth ym mlwyddyn 10.


### Twrnament Hoci Gogledd Genethod Bl 7

Tim A Brynrefail 2ail  
Tim B Brynrefail 5ed  
Bae Colwyn, Mai 25ain.

### Tim Athletau Genethod Bl 8

Daeth y tim yn ail drwy Eryri me  
13eg.  
Efa Davies, Neve Rooney, meloc  
Brookes a Abbi Parkinson.





Dyma lun - hyfryd! - o Owain Roberts Bl 7 sydd ar hyn o bryd yn peidio bwyta sio-cled am fis er mwyn codi arian at elusen Ymwybyddiaeth Aw-tistiaeth. Mae o bron iawn â chyrraedd ei darged o £300!



Cymru i



ewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Maent rwan drwadd i Ffeinal Cymru yn Aberhonddu, Gorffennaf

ly Haston Wilson, Elin Jones, Medi Edwards, Sara Halliday, Rhian Haywood, Georgia Parkinson, Gwernan



**Ysgol Gymuned Penisarwaen Cymanfa'r Carnifal** - Nos Sul, Gorffennaf 2ail, cafwyd eitemau gan rai o ddisgyblion yr ysgol yn ystod y Gymanfa a gynhaliwyd i orffen gweithgareddau wythnos Carnifal Penisarwaen. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran.

**Mabolgampau** - Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol bnawn dydd Mercher, Gorffennaf 12fed. Cafwyd pnaewn bendigedig gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau i dîm Eilio am ddod yn fuddugol. Roedd Cyfeillion yr ysgol wedi trefnu stondin i werthu diodydd, mefus a chacennau. Diolch i'r Cyfeillion ac i bawb a ddaeth draw i gefnogi.

**Trip Ysgol** -Dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed, cafodd holl blant yr ysgol ddiwrnod o hwyl yn Sw Bae Colwyn.

**Gwasanaeth Ffarwelio** - Trefnwyd Te bach prynhawn dydd Iau, Gorffennaf 20fed, er mwyn ffarwelio a dymuno'n dda i saith o blant blwyddyn 6 yr ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Brynrefail a Friars ym mis Medi. Roedd pob un ohonynt wedi paratoi ar gyfer darllen rhai o'u hatgofion yn yr ysgol. Roedd yn gyfle i ni hefyd i ddangos ein gwerthfawrogiad i Mrs Carol Jones wrth iddi ymddeol ar ôl 19 o flynyddoedd o wasanaeth yn dysgu yn yr ysgol. Cyflwynwyd anrhegion i Mrs Jones ar ran y rhieni, disgyblion, Staff a Llywodraethwyr yr ysgol. Bydd colled enfawr ar ei hól. Rhannwyd amryw o dystysgrifau a rhodd iddynt ar ran yr ysgol. Cyflwynwyd

tarian disgybl y flwyddyn i Ryan Ash a tharian ymroddiad i Cynan Jones ac Alex Roberts. Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt i gyd.

**Dymuna Mrs Carol Jones ddiolch o galon i holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a chyfeillion Ysgol Penisarwaen am yr holl gyfarchion da, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad ar ôl 19 mlynedd fel athrawes yn yr ysgol. Hoffai dymuno pob llwyddiant i'r ysgol yn y dyfodol.**

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen**

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Mehefin oedd Mrs Janice Jones, Tyddyn Perthi, gyda rhif 24, ac enillydd Gorffennaf oedd Mrs Mair Orrock gyda rhif 36. Llongyfarchiadau iddynt!

**Ysgol Sul Bosra** Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Medi 10fed, am 10 o'r gloch y bore. Mae croeso cynnes i aelodau newydd. Gobeithir trefnu trip i 'Ganolfan Mari Jones' yn y Bala.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst a'r enillwyr yw:

Gorffennaf: Jane Parkinson, Bryn Eglwys a Miss Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd.

Awst: Catrin Glyn, Tawelfa a Karen Durber, Llys Arddun.

Bydd yr Ysgol Gymuned yn dathlu ei phen-blwydd yn 25ain yr Hydref hwn ac yn ffodus iawn llwyddwyd i dderbyn cyfraniad gan y Loteri i baentio'r Ysgol a'r Ganolfan Gymunedol. Cynhelir

Pwyllgor y Neuadd Gymuned nos Lun, Medi 18fed, am 7.0 o'r gloch i drefnu gweithgaredd cymdeithasol i ddathlu Pen-blwydd Arian yr ysgol yr ydym yn ymfalchio ynddi. Ceir mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Llongyferchir Phyllis am ei hurddo yn Eisteddfod Môn a braf oedd gweld cymaint o gwmpas Cylch yr Orsedd i'w chyfarch hi ac aelodau eraill o Fro'r Eco.

Pwyllgor Eisteddfod Bntref Eleni eto rydym yn ymfalchio yn y gefnogaeth gref a gafwyd, o'r ieuengaf i'r oedolion, gyda chystadlu ymhob cystadleuaeth: cerdd, llefaru, offerynnol, cyd-ganu, cyd-adrodd a bu cystadlu brwd yn yr Adran Celf a Chreffft, Coginio, Limrigau a llunio brawddeg o 'Bodedern'.

Dymunir diolch i'r beirniaid i gyd am eu hanogaeth i'r cystadleuwyr a diolch i Anna George, Llywydd y Noson, am ein hatgoffa o'i dyddiau cystadlu hi. Diolch iddi am ei rhodd arbennig i'r Eisteddfod.

Y Prif Lenor Cynradd, gyda chanmoliaeth uchel gan yr Athro Angharad Price oedd Ela Branch, Blwyddyn 5, ynghyd â chanmoliaeth uchel i'r Prif Lenor Uwch, Elin Thomas, Blwyddyn 9 am ei phortread cynnil o berthynas dwy chwaer. Rhagorol oedd ymateb y beirniad i Ela ac Elin.

Bu canmoliaeth i Teigar ac Oren, Blwyddyn 7-9, sef Efa a Mabli, efeilliaid. 'Dylai'r cystadleuwyr yn sicr ddal ati i ysgrifennu - gan fod ganddynt i gyd eu lleisiau arbennig eu hunain ac maent wedi cynhyrchu gwaith addawol dros ben!'

Cafwyd ymateb da i 'Sgen Ti Dalent?' gyda datganiad

gwefreiddiol ar y Piano gan Magi Tudur, un sydd wedi cefnogi'r Eisteddfod yn flynyddol ers yn dair oed. Bu'n gyngerdd o gystadlaethau, gyda Magi eto yn canu Unawd Sioe Gerdd ac Aron ac Efa a Mabli, gyda'u hofferynnau, yn swyno'r gynulleidfa.

Cafwyd clo arbennig i'r Eisteddfod gan yr oedolion. Difyr a gogleisiol iawn fu'r Gân Ysgafn gan y merched yn canmol i'r cymylau Iwan Williams, y beirniad cerdd. Englynion Coffa R. Williams Parry gafwyd gan Barti'r Merched a chyflwyniad dwys a disgybledig oedd ymateb Anwen (Meillionydd gynt) i'r cyfan gyda diolch am gymryd y cyfle i gofio am Hedd Wyn a'r Gadair Ddu.

Daeth 15 o gantorion soniarus i'r Côr a chafwyd datganiad arbennig o'r emyn 'O Nefol Addfwyn Oen' i ddathlu 300 mlynedd geni'r emynydd William Williams, Pantycelyn. Rydym fel pentref bychan yn hynod falch o'r ymateb a geir yn flynyddol - bu'n Eisteddfod fywiog gyda chynulleidfa deilwng wedi aros hyd y diwedd i gefnogi. Diolchir i bawb am eich cefnogaeth.

Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Medi 18fed yn yr Ystafell Gymuned am 7.30 i gychwyn trefnu Eisteddfod 2018.

**Llongyfarchiadau** Ein dymuniadau gorau i bawb fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau ac i'r rhai fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r amrywiol sioeau.

**Bwndelir Eco yr Hydref yn yr Ysgol Gymuned ar Fedi 29ain.**

**DODREFN A LLORIAU PERKINS FURNITURE & FLOORING**

••• 01286 673535 •••

[www.perkinsfurniture.co.uk](http://www.perkinsfurniture.co.uk)

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

**ARVONIA**







- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 [www.arvoniaco.uk](http://www.arvoniaco.uk)

# Parhad PENISARWAUN

# Nofio a Beicio er cof



Wedi brwydr ddewr rhag cancr bu farw Yvonne Pitts un mlynedd ar ddeg yn ol. Bob blwyddyn ers hynny, mae Malcolm wedi trefnu teithiau noddedig i godi arian i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac i Ysbyty Eryri lle cafodd ei wraig ofal tyner. Bu'n nofio milltir a hanner saith o weithiau mewn mis ym Mhlas Menai, ac yna, gyda'i ffrind Darren Brame, beiciodd 53 milltir o Blas Menai i Gastell Conwy, Castell Caernarfon, ac yn ol i Blas Menai. Mae Malcolm yn dymuno diolch i bawb a fu mor garedig a'i nodd i chyfrannu tuag at yr achosion hyn. Cyflwynwyd £1,100 i Uned Cancr Dydd Ward Alaw, a £500 i Ysbyty Eryri.

**RHOSTIO MOCHYN**  
 Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau  
**AR GYFER POB ACHLYSUR**  
 DEWC'S MAE O'N FLASUS  
 PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD  
 BEDYDD • DAWNS • GWYLIU  
 CIG O FFERMYDD LLEOL  
 PARTION RHWNG 40-400!  
 Cysylltwch a  
**John Brynafon**  
**LLANRUG**  
 www.ydyncig.co.uk  
**675190 • 673188**  
 Symudol- 07798 718188

**ORIEL CWM**  
 CWM Y GLO  
 Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle  
**PRISIAU RHESYMOL**  
 Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artisiaid lleol  
 Richard S. Humphreys  
 Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS  
 www.theroyalvictoria.co.uk  
 Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau  
 Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul  
 • PRIODASAU •  
**Ffôn- 01286-870253**  
 enquiries@theroyalvictoria.co.uk  
 The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

**Gwesty Dolbadarn**  
 Llanberis  
**Ffôn-(01286)-870277**

**Premier**  
**Y Stofa Premier Llanrug**  
 Sgwar Llanrug  
**01286-673108**  
 Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost  
 Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

## Ysgol Gwaun Gynfi



### Llongyfarchiadau mawr

Gwelir aelodau pwyllgor Eco Ysgol, Ysgol Gwaun Gynfi sef Elliw Carroll, Sion Lewis, Elin Evans, Kyle Jones, Erin Lewis, Ben Bolton ac Lois Williams (Owain Jeffreys a Jessica Bamber yn absennol o'r llun) yn dathlu eu llwyddiant ar ennill y Faner Werdd am yr ail waith am eu gwaith yn datblygu tir yr ysgol, sbwriel, gwastraff, ynni, dŵr, cludiant, byw'n iach a dinasyddiaeth fyd-eang.

### Da iawn chi!

Hyfforddiant Beicio i flwyddyn 6

Cafodd disgyblion blwyddyn chwech wersi diogelwch ar y ffordd a seiclo. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar gyrraedd Lefel 2.

### Kerbcraft

Bu disgyblion Bl 2 yn rhan o gynllun Kerbcraft yn dysgu am ddiogelwch y ffordd.

### Cyngerdd Gŵyl Deiniolen

Cawsom noson lwyddiannus iawn yn Eglwys Llandinorwig. Cawsom eitemau unigol gan Elin Dafydd, Erin Wyn, Erin Lewis, Lois Williams a chôr yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr i Lois Eifion am gyfeilio ac i'r Wyl am eu cyfraniad ariannol.

Diolch yn fawr

### Cyfeiriannu

Llongyfarchiadau i Amhed a Keiran ar fynd ymlaen i'r rownd derfynol ym Mharc Glynllifon. Da iawn chi hogiau!

Ymweliad gan yr awdur Gwion Hallam

Daeth Gwion Hallam i'r ysgol i gydweithio gyda disgyblion blwyddyn 6. Cawsom ddarnau ysgrifenedig diddorol iawn.

### Diolch i brosiect Cadwyn Heddwch.

Bl 5 yn mwynhau perfformio yn Pontio.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Opera Cenedlaethol Cymru am gael y cyfle i fod yn rhan o'r perfformiad. Bu disgyblion dosbarth Mrs Williams yn lwcus dros ben i gael cwmni Annette Bryn Parry a Jenny Pearson a cael dysgu caneuon a chael profiad o ganu opera. Cawsom fore bythgofiadwy yn gwrando ar wahanol artistiaid yn canu a gwrando ar gerddorfa Cenedlaethol Cymru yn perfformio.

### Ffair Haf

Prynhawn llwyddiannus yn gwerthu nwyddau ac yn chwarae gemau. Diolch i'r staff, rhieni a disgyblion yr ysgol am eu gwaith caled. Gwnaethpwyd elw o £1000.

### Diwrnod Agored Plas Menai

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn wrth ymweld â Phlas Menai. Cyfle i'r disgyblion gyfarfod ag achubwyr Dangosiad cerddorol gan ddisgyblion Syr Hugh Owen dan arweiniad Lois Eifion a Dylan.

Bore llwyddiannus iawn yn gwrando ar ddisgyblion Syr Hugh Owen yn chwarae offerynnau pres. Diolch yn fawr iawn.

### Gwasanaeth Dosbarth Meithrin

Gwasanaeth hwyliog iawn gan y Dosbarth meithrin yn dawnsio ac yn canu. Diolch i'r rhieni am gefnogi'r bore.

### Gwasanaeth Blwyddyn 6

Bore emosiynol iawn yng nghwmni rhieni yn ffarwelio â disgyblion Bl6. Diolch i Mr Griffith a Lois Eifion am baratoi'r gwasanaeth hwyliog.



## Parhad DEINIOLEN

### Yn yr Eisteddfod Genedlaethol



Tair yn enedigol o'r pentref yn mwynhau egwyl cyn ymddangos ar lwyfan y Brifwyl: Sian Gibson (Bontnewydd), Lyndsey Vaughan a Mair Hughes (Llanrug).

**Cafwyd Gŵyl** lwyddiannus eto eleni gyda gweithgareddau amrywiol trwy'r wythnos gan gyrraedd uchafbwynt ar y Sadwrn heulog olaf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr holl weithgareddau trwy'r wythnos, i'r noddwyr a gyfrannodd amrywiol nwyddau a gwobrau i'r raffl ac ati ag i'r holl wirfoddolwyr a roddodd eu hamser trwy'r wythnos i wneud hon yn Wyl lwyddiannus unwaith eto.

**Taith i Malawi** Mae Elliw Geraint Hughes, Coed Mawr, ym Malawi ar hyn o bryd ar brosiect dyngarol am dair wythnos o dan arweiniad Adran Iechyd a Gwyddorau Bywyd Prifysgol Coventry. Mae Elliw yn un o 14 o fyfyrwyr o'r Brifysgol, ble y mae hi ar fin dechrau ar ei thrydedd flwyddyn ar gwrs gradd Therapi Galwedigaethol, sydd ym Malawi ers 25 Awst yn helpu pobl Albino i fyw bywyd llawn a di-ormes yn eu gwlad eu hunain. Cawn hanes y daith gan Elliw ar ôl iddi ddychwelyd adref.

**Clwb Celf** Mae clwb celf newydd yn cael ei drefnu i blant a theuluoedd Deiniolen a'r cylch. Mae Grŵp Dyfodol Deiniolen wedi derbyn grant o Gronfa Celfyddydau Cymunedol i gynnal clwb yn Nhŷ Elidir, Deiniolen, a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2017. Yr artist Catrin Griffiths, sy'n wreiddiol o Ddinorwig fydd yn arwain y sesiynau. Mae'r manylion llawn ar gael ar y wefan... www.dyfodoldeiniolen.wordpress.com

**Llongyfarchiadau mawr** i Mrs Jennie Wynne Williams, Bro Deiniol, ar dderbyn anrhydedd "Age UK's Spirit of Age Retail Award" 2017.

**Diolch** Dymuna Jane

Thorman ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn ddiweddar tra bu hi yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth. Diolch o galon i chi gyd.

**Cydymdeimlo** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Eileen Hughes, Arwel, Dylan a'r teulu i gyd o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn sef John Hughes. Mi fydd colled fawr ar ôl un mor arbennig.

**Llongyfarchiadau** Mae pawb a fu'n disgwyl am ganlyniadau arholiadau bellach yn gwybod be gafwyd, da iawn chi i gyd.

**Eglwys Crist** Pnawn Sul, Medi 24ain, am dri o'r gloch, cynhelir gwasanaeth yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ar yr union ddyddiad pan gysegrwyd (agorwyd) yr eglwys hon ar ddydd Iau, 160 mlynedd yn ôl yn 1857. Yn y gwasanaeth, cofir am yr achlysur lle cafwyd pedwar o wasanaethau y diwrnod hwnnw yn yr eglwys, un ohonynt yn wasanaeth bedyddio Henry, sef mab y ficer cyntaf, Y Parch Henry Grey Edwards. Y Canon Idris Thomas, Glanrafon, fydd yn trefnu'r gwasanaeth ac yn ei lyfr Gwynfyd Gwaun Gynfi a gyhoeddwyd i dathlu canrif a hanner yn 2007 ceir yr holl hanes yn fanwl

### Dysgwyr y flwyddyn

Llawenydd mawr i'r pentref cyfan oedd fod Emma Chappell, Tai Caradog wedi ennill Tlws Dysgwyr Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni. Daeth pedwar i'r rownd derfynol ac mewn cystadlueaeth hynod safonol daeth Emma i'r brig a hynny gyda chanmoliaeth uchel iawn y beirniaid. Cynhaliwyd noson y gwobrwyo yng Ngwesty Treysgawen lle daeth nifer fawr ynghyd gan gynnwys teulu a pherthnasau Emma. Yno dangoswyd ffilm yn portreadu Emma, ei gwaith a'i chynefin, a soniwyd yn bennaf ar y ffilm am ei ei chyfraniad yn y maes dysgu Cymraeg a'i gwaith yn y gymuned gan Ann Thomas, Glanrafon, Ffordd Deiniol a chafwyd cyfraniad byr gan Elfed Williams. Ganwyd Emma yng Nghaergrawnt ond erbyn hyn mae'n byw yma yn Neiniolen gyda'i phartner Arwel a'u dau fab, Deion a Guto. Aeth Emma ati i ddysgu Cymraeg ar ôl cyfarfod Arwel. Pan oedd yn byw yn Warrington, yn ffodus, roedd dosbarth nos yn y dref ac yna pan symudodd i Gymru aeth ati o ddirif i ddysgu mwy ar yr iaith.

Mae Emma yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor ac yn defnyddio ei Chymraeg fel rhan o'i swydd o ddydd i ddydd. Cymraeg hefyd yw iaith yr aelwyd a'i bywyd cymunedol yn y pentref gan gynnwys bod yn aelod gwerthfawr o bwyllgor Ysgol Feithrin y pentref


Pnawn Iau o flaen torf dda yn y Pafiliwn cyflwynwyd i Emma, gyda swyddogion yr Wyl yn bresennol, dlws hardd a rhodd ariannol, a derbyniodd gymeradwyaeth wresog iawn. Yn dilyn hyn aeth pawb i Babell y Dysgwyr sef Maes D lle torrwyd cacen arbennig a chyfle i bawb longyfarch Emma a doedd neb mwy balch na'i phartner Arwel a'r hogia Deion a Guto. Diolch i Emma ei hymroddiad a'i brwdfrydedd dros ddysgu'r iaith a diolch iddi am ddwyn enw da pentref Deiniolen i sylw cenedl gyfan.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaeth hwn.

**Colli John** Daeth tyrfa fawr i Eglwys Llandinorwig ar fore Sadwrn (22 Gorffennaf) i gynhebrwng John Arthur Hughes, Prenteg a fu farw yn 76 oed. Roedd John yn adnabyddus i bawb a hoffai sgwrsio â phawb yn arbennig felly am y chwarel a'r dyddiau a fu. Brodor o Lanberis ydoedd, yr ieuengaf o wyth o blant ac yn Chwarel y Penrhyn y gweithiodd drwy'i oes. Priododd ef ag Eileen yn Eglwys Llandinorwig



yn 1970. Disgrifiwyd ef yn ei gynhebrwng fel y "cawr addfwyn" ac un ffeind, tawel a charedig ydoedd. Roedd yn briod addfwyn i Eileen, yn dad arbennig i Arwel a Dylan a'u cymheiriaid Vicky a Jennie, yn daid balch i Leon, Hannah a Sam, yn frawd yng nghyfraith a brawd hoffus ac yn gyfaill triw i'w ffrindiau. Bydd colled ar ei ôl. Aeth rhoddion er cof amdano at elusennau lleol. Y Canon Idris Thomas, Glanrafon, oedd yn gwasanaethu gydag Annette Bryn Parri wrth yr organ.



**E. W. Pritchard**

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202



**Cadi Jones Cadeirydd CC Waunfawr yn cyflwyno taleb o £25 i Bethan a Now Jones yn dilyn raffl holiadur tai fforddiadwy ardal blwyf Waunfawr yn ddiweddar.**

Mi gofiwch i holiadur tai fforddiadwy gael ei ddosbarthu mis Rhagfyr i ganfod yr angen am dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn ardal Waunfawr, ac yn ystod cyfarfod y Cyngor Cymuned mis Mehefin cyflwynwyd gwobr raffl oedd ynghlwm â llenwi'r holiadur yma.

Mae'r wybodaeth am yr angen o'r holiadur wedi ei gasglu a'i ddadansoddi ac mae yna angen yn yr ardal. Cyflwynodd Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig, adroddiad i'r Cyngor oedd yn cadarnhau cynifer â 12 yn dweud eu bod mewn angen symud o fewn yr ardal a nifer yn sôn mai tai rhy fach, angen annibyniaeth ac angen gwaith trwsio fel rhesymau gyda dim digon o gynilon yn ffactor arall. Mae safle ger Gerddi Bach wedi ei adnabod ar gyfer cynllun o 4 tŷ fydd, gobeithio, yn ateb gofynion rhai pobl leol sydd wedi ymateb i'r holiadur a rhai sydd eto heb wneud. Bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd dros y misoedd nesaf ble bydd modd cadarnhau'r tai mae Grŵp Cynefin am ei godi ar y safle ynghyd â chadarnhau tystiolaeth cyswllt lleol a gallu pobl i dalu amdanynt. Bydd croeso i rai sydd heb ddangos diddordeb hyd yn hyn i ddod ymlaen adeg hynny, neu i gofrestru ar wefan Tai Teg.

Bydd hysbysebion a gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael eu gosod mewn manau amlwg ac

ar y we, a bydd rhai sydd wedi cynnwys manylion cyswllt yn yr holiadur yn cael neges i'w hysbysu yn uniongyrchol.

**Clwb 300** Enillwyr mis Mehefin oedd: £30: Mr Raymond Edwards, Felin y Wig; £20: Ms Myfanwy Roberts, Clyd y Coed; £10: Mr L.J. Williams, Plas Bodhyfryd.

Enillwyr Gorffennaf oedd: £30: Mrs Mererid Llwyd, Cae Rhos; £20: Mrs Emsul Jones, 15 Bro Waun; £10: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa.

Enillwyr Awst oedd: £30: Mr Eurig Wyn, Y Frenni; £20: Mr Elfyn Griffith, Blaen y Nant; £10: Ms Myfanwy Roberts, Clyd y Coed.

**Cymorth Cristnogol** Eleni eto trefnwyd casgliad gan Eglwys y Waun a chasglwyd £730. Mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi pobl o bob crefydd a rhai di-grefydd yn ogystal. Mae'r ymdrech eleni yn mynd tuag at y ffoaduriaid a chyfraniad o bum punt yn ddigon i brynu dau bryd poeth.

Diolch i'r rhai fu'n casglu o ddrws i ddrws ac i bawb a gyfrannodd.

**Wrth ei Gwaith** Roedd dydd Llun, Mehefin 12fed, yn 'Ddiwrnod Cenedlaethol Rhoi Gwaed'. Ar raglen deledu S4C 'Heno' gwelwyd Delyth, Tany-coed, Stad Bod Hyfryd, sydd yn nyrs, wrth ei gwaith ar y Bws Cymdeithas Rhoi Gwaed yn paratoi gwirfoddolwraig i

roi gwaed. Roedd yn garedig a gofalus ac yn paratoi paned a bisged iddi ar ôl y broses. Apeliodd yn garedig i rai eraill ddod i roi gwaed a helpu'r Gymdeithas gyda'r ymgyrch bwysig.

**Hefyd** ar raglen Heno gwelwys Elinor, wyres Glenys a Haydn, Rhandir Mwyn, yn sgwrsio gyda Elin Fflur ar y traeth ym Mhrestatyn.

**Helpu'r Ffoaduriaid** Bob nos Fercher, rhwng 6 a 9 o'r gloch, bydd gwirfoddolwyr yn agos drws 'Y Fricsen', Cwm-y-glo, ac yn derbyn rhoddion o ddillad, dillad gwely a thyweli gan y cyhoedd er mwyn eu hanfon i ffoaduriaid yn y gwledydd trist. Maent yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad.

**Eisteddfod Môn** Ar restr llwyddiannau cystadlaethau yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fôn roedd rhai enwau â chysylltiad â'r Waun.

Nanw Llwyd, merch ein meddyg Eysyllt Llwyd; Nel Gwilym, merch ein meddyg Huw Gwilym ac wyres Norman ac Olwen, Llidiart Wen; Leisa Gwenllian a Tomi Llywelyn, wyres ac ŵyr Duncan a Gill, Gwelfor; roedd Rhys, ŵyr Olwen Owen, Stad Tref Eilian yn aelod o Fand Llanrug a Huw Emrys, Gwastadfaes, yn aelod o Gerddorfa'r Eisteddfod a oedd yn cyfeilio yn y Gymanfa Ganu.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

Roedd y nwyddau ym mhabell yr Antur yn werth eu gweld ac yn glod i'r gweithwyr a'u gofalwyr.

**Babanod Bach Newydd i'r Pentref** Rhaid croesawu y babanod bach sydd wedi eu geni yn ystod y gwyliau, a llongyfarch y teuluoedd:

Ganwyd merch fach, Cali, i Cara ac Alex, 1 Min y Grug, wyres fach i Sam a Tegid, sydd yn byw yn yr Alban a gor-wyres i Nelma a Lleufer, Stad Croes y Waun.

Daeth Eirwen a Roy, Cynefin, yn nain a thaid i'r wyres fach, Hannah Matilda, merch fach i Kirsty a'i chymar, Steven, yn

byw ym Mangor.

Merch fach, Mared Buddug, a anwyd i Catrin a Gethin, Yr Eglwys, Waunfawr, chwaer a ffrind fach i Cadi a Nora. Bydd y ddwy wrth eu bodd yn helpu.

Bachgen bach a anwyd i Paige a Steven. Bydd Rebecca a Jessica wrth eu bodd yn cael magu eu brawd bach, William, a Patrick yn falch o gael bod yn frawd mawr iddo. Hefyd dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Stad Bro Rhos. Mae nain a taid Y Siop wedi gwirioni â'u ŵyr bach newydd.

Mab bach arall a anwyd i Zoe a Siôn, Sŵn y Gwynt, Stad Bod Hyfryd, a dyma Dei John wedi gwirioni gyda'i frawd bach, Huw Siôn. Ŵyr bach i Janet a Peter Greasley, gor-ŵyr i Gwladys a David Greasley, Min Afon, ac i Grace Dawson, Stad Tref Eilian.

Daeth Grace yn hen nain hefyd i Kate, merch fach i'w hwyres, Karen a'i phriod, Dylan, sy'n byw yn Llanrug. Mae Kate yn chwaer fach i Elin, Anest, Cai a Lois.

Daeth Gwyneth, sydd yn gweithio yn Syrjeri Liverpool House, a John ei phriod, yn nain a thaid i ddwy wyres fach, sef Mali Gwyn a anwyd i Sarah a Dafydd, eu mab, chwaer fach i Twm a hefyd Alaw a anwyd i Ceri a Robin, eu mab arall, chwaer fach i Cian a Dion.

Mae y rhai bach wedi gwneud eu lle ar yr aelwydydd i gyd a'r teuluoedd wedi gwirioni.

**Dathlu Pen-blwydd** Llongyfarchiadau i Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 91 mlwydd oed yn ystod mis Awst.

Dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed y bu Stephanie, Stad Tŷ Hen. Llongyfarchiadau i ti Steph, a phob dymuniad da.

**Pen-blwydd Priodas** Llongyfarchiadau i Iona a Tom Williams, Llwydiarth, ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiamwnt yn ystod mis Awst.

Diolch Dymuna Tom a Iona Williams, Llwydiarth, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl

# Parhad WAUNFAWR



gyfarchion a'r dymuniadau cynnes a dderbyniwyd ar achlysur dathlu pen-blwydd priodas 60 mlynedd yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau i'n Pobl Ifanc

Daeth canlyniadau yr arholiadau allanol ysgol a choleg eto eleni a llongyfarchwn pob un fu'n sefyll y gwahanol arholiadau am wneud eu gorau. Dymunwn y gorau ichi wrth fynd ymlaen â'ch gyrfu.

Fel y daw'r rhifyn yma o'r Eco o'r wasg bydd yr ysgolion yn cychwyn blwyddyn addysgol newydd. Dymuniadau gorau ichi, o'r ieuengaf i'r hynaf, gan fawr obeithio y byddwch yn setlo ac yn hapus iawn.

Y llynedd roedd Dafydd Llwyd

yn un o'r prif ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac eleni mae Tomos Morgan â'r un cyfrifoldeb o arwain y bechgyn. Pob hwyl i ti drwy'r flwyddyn.

Dymunwn yn dda hefyd i'r rhai fydd yn cychwyn mewn swyddi newydd.

**Adref o'r Ysbyty** Croeso adref o'r ysbyty i Richard Charge, Llifon, Teras Glyn Afon. Rydym yn falch o dy weld yn gwella.

Croeso adref hefyd i Mrs Grace Dawson wedi iddi gael triniaeth i'w llaw yn Ysbyty Gwynedd, ac i Dean Clark, 2 Pant y Waun, wedi iddo gael llawdriniaeth. Hyderwn y byddwch yn gwella bob dydd.

**Gwella** Rydym yn falch fod Ella, Melfyn, Stad Tŷ Hen yn gwella wedi iddi anafu ei hysgwydd tra allan yn chwarae ddechrau'r gwyliau.

Mae'n dda gweld Siôn, o'r Antur, yn dod ato'i hun wedi'r dychryn o golli ei fag bwyd. Dymuna'r teulu ddiolch am bob cymorth a gafodd i gael ei fag yn ôl.

Anfonwn ein cofion at Mr Gwilym Williams, Fferm Bod

Hyfryd, sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys a Mrs Nance Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Eric, a oedd yn byw yn Rhos Isa.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Menna Jones, Prif Weithredwraig yr Antur, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.

## Gwasanaethau'r Sul Eglwys y Waun am fis Medi

3: Parch Eric Jones  
 10: Ms Iola Jones, Y Ffôr  
 17: Dr Gwyn Lewis  
 24: Cynhelir 'Gwasanaeth Diolchgarwch y Teulu, yng Nghapel 'Eglwys y Waun' am 10 o'r gloch y bore.  
 Y bore hwnnw byddwn yn derbyn rhoddion o duniau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

## Ysgol Gynradd

### Twrnaint Tennis

Ddechrau Mehefin bu tîm tenis blwyddyn 3 a 4 yr Adran Iau yn cystadlu yn Nhwrnaint Tennis Ysgolion Arfon.

### Ymweliad blwyddyn 6 ag Ysgol Brynrefail

Bu blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddiweddedd Mehefin a chawsant ddiwrnod gwerth chweil. Pawb yn edrych ymlaen i gychwyn ym mis Medi.

### Diwrnod Mabolgampau

Hoffem ddiolch i rieni, neiniau a theidiau am gefnogi ein diwrnod Mabolgampau.

Cafwyd ddiwrnod da gyda Thim Eilio yn ennill am y tro cyntaf ers chwe mlynedd. Da iawn nhw!

Dyma restr o enillwyr y

marciau uchaf yn eu blwyddyn: Dosbarth Derbyn = Cadi a Lewis

Blwyddyn 1 = Erin, Rebecca a Colin

Blwyddyn 2 = Abi a Dion

Blwyddyn 3 = Mari a Harri

Blwyddyn 4 = Seren ac Aled Wyn

Blwyddyn 5 = Ellie a Robin

Blwyddyn 6 = Serenna, Cai ac Ianto

Pencampwyr yr ysgol eleni = Seren ac Aled o flwyddyn 4. Llongyfarchiadau mawriddynt i gyd.

Diolch i'r plant am gystadlu mor frwd ac am eu hymddygiad rhagorol. Diolch hefyd i'r mamau a fu'n ddiwyd drwy'r dydd yn paratoi paned ar y stondinau.

### Ffair Haf

Yr un modd diolchwn i aelodau Pwyllgor Rhieni yr ysgol am drefnu a chynnal y Ffair Haf ddechrau mis Gorffennaf. Braff oedd cael cynnal y ffair ar yr iard a'r cae. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi gwnaed elw o £700.

### Diwrnod o sesiynau hyfforddiant gan yplismon

Treuliodd y plismon PC Dylan Pritchard ddiwrnod yn rhoi gwersi ar wahanol agweddau o fod yn ddiogel. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr bydd rhagor o wersi yn y tymor newydd.

### Noson rhieni newydd a phlant meithrin yn ymweld â'r ysgol

Cynhaliwyd noson i rieni'r deuddeg o blant meithrin a fydd yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi. Braff oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Treuliodd y plant fore yn yr ysgol a phob un ohonynt yn blant da. Edrychwn ymlaen i'w derbyn yn y tymor newydd.

### Perfformio gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Bu i flwyddyn 4 a 5 gymryd rhan mewn cyngerdd arbennig gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn Theatr Bryn Terfel yng Nghanolfan Pontio cyn diwedd y tymor diwethaf. Bu'n brofiad anhygoel i'r disgyblion, nid yn unig o gael canu gyda'r cwmni opera ond

cawsant hefyd y cyfle i ddysgu a chlywed holl offerynnau'r gerddorfa. Dolch i chwi rieni a pherthnasau am gefnogi a mynychu'r perfformiad. Bu'n brofiad gwerth chweil!

### Diwrnod Ffarwelio blwyddyn 6

Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn neuadd yr ysgol heddiw. Braff iawn oedd gweld cynifer o rieni, neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 wedi ymuno gyda ni i weld 'Photo Story' i ddathlu llwybr addysgol y plant ers y Dosbarth Meithrin hyd flwyddyn 6. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a derbyniodd pob plentyn darian am eu llwyddiannau. Cyflwynwyd plât coffa a llyfr lloffion yn rhodd gan yr ysgol. Dymunir yn dda iddynt i gyd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Ysgol Friars ac Ysgol Syr Hugh Owen.

### Dymuniadau gorau

Hoffem ddymuno yn dda i Mrs Sioned Llwyd, Mrs Eirwen Hughes a Mrs Eryl Williams Anfonwn ein diolchiadau diffuant am eu gwaith a'u cyfraniad i'r ysgol a dymunwn pob dymuniad da i'r dyfodol. Dymunwn yn dda hefyd i Miss Hannah Francis a fydd yn priodi dros yr haf. Bydd y plant yn ail gychwyn ddydd Mawrth, Medi y Sed.



### Tripiau ddiwedd tymor

Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caethro dydd Mercher, Gorffennaf y 7 fed, tra bu plant y dosbarth derbyn i flwyddyn 4 yng Ngelli Gyffwrdd. Treuliodd blwyddyn 6 a 5 dridiau yng Nghaerdydd a chawsant amser gwych. Mwynhaodd pawb eu tripiau a bu'r tywydd yn ffafriol i bawb.

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

#### Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 2ail Fai 2017

Cyfethol Cynghorwyr

Cyfetholwyd Gareth Wyn Griffiths fel cynghorydd ar sedd wâg ym Methel.

Ac

Aled Green ym Mhenisarwaun.

Llwyddiant

Phyllis Ellis - Dywedodd y Cadeirydd ein bod yn LLongyfarch Phyllis Ellis ar gael ei hethol i Wisg Lâs yr Orsedd am ei chyfraniad a gwasanaeth i'r gymuned. Mae Phyllis wedi eistedd fel cynghorydd cymunedol ym Mhenisarwaun ers dros 40ain o flynyddoedd. Tipyn o Gamp! Llongyfarchiadau Mawr iddi, a diolch am ei gwaith.

Eisteddfod yr Urdd – Mawr oedd ein balchder o weld cymaint o blant a phobl ifanc yr ardal yn disgleirio ar lwyfan yr Ŵyl. Cynifer o weithiau clywsom "Ysgol Uwchradd Brynrefail, Cylch Arfon, Rhanbarth Eryri" yn cael ei ddatgan o'r llwyfan. LLongyfarchiadau Mawr i bob un a gymerodd ran. Mae ein Diolch yn fawr i'r hyfforddwyr, athrawon, a rhieni am eu cefnogaeth i'r plant. Daliwch ati.

Cofnodion Cyfarfod 2ail Fai 2017

Derbyniwyd y Cofnodion yn gywir

Materion o'r cofnodion

Mast Bethel – Dywedwyd fod y cyngor cymuned wedi codi gwrthwynebiad ynglyn a hyn, ond mae'r mast wedi ei godi gan nad oedd angen caniatad cynllunio, a bod hyn yn bolisi gan y cynulliad cenedlaethol, sydd ond yn gofyn am rybudd o godi mast.

Bron Gwynedd – Pan ddaeth y cais yma gerbron y tro cyntaf ym mis Ebrill, dangosodd y Cyngor Cymuned eu gwrthwynebiad i'r datblygiad am nifer o resymau. Ers hynny mae llawer o drafodeuthau ac ymweliadau a'r safle di bod, ac ar y Sed o Fehefin, cynhaliwyd trafodaeth pellach yn y Cyngor Sir, a penderfynwyd fod angen gweld tai fforddiadwy. Dywedwyd oherwydd fod y tir ar ffon ffiniau datblygu, fod ganddynt yr hawl i adeiladu 4 tŷ. Penderfynwyd llythyru y Cyngor Sir i ddatgan ein siomedigaeth a'r pryderon ynglyn a'r safle a gofyn am gadarnhad a phwysigrwydd na fydd dim mwy o dai yn cael ei adeiladu yno.

Lon Perthi - Derbyniwyd ymateb fod gwaith pachio tyllau yn cael ei wneud y flwyddyn yma, ac yna fydd yna raglen arwisgo yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol i ddilyn.

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Waunfawr

Cofnodion Cyfarfod nos Fercher, 21 Mehefin 2017, yn Festri Capel y Waun

Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Edgar Owen, Eurig Wyn, Delyth Jones, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Erddin Llwyd, Sali Burns

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 17.05.17 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion -

Materion Caeathro –

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
2. Mainc Caeathro – Cyng SB yn mynd i drefnu i gael peintio y fainc.
3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Dŵr yn casglu ar rhan o'r ffordd yn dilyn gosod polion BT newydd yn ddiweddar. Cyng EO mewn cysylltiad.
4. Biniâu Baw Ci – angen holi i gael mwy o finiau.

Materion Waunfawr –

1. Biniâu Baw Ci – Wedi derbyn ymateb CG, ond aros i'r biniâu gael eu gosod.
2. Tacluso Pentref – i'w drefnu gyda Chlwb Ieuencid y pentref yn ystod mis Medi.
3. Maes Parcio ger Ael y Bryn a llwybr cefn Dôl Erddi, -llwybr cefn Dôl Erddi wedi cael ei glirio, aros i'r gwaith gael ei wneud i'r maes parcio.
4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – Mewn trafodaethau a CG i lesu'r tir gyda'r posibilrwydd o greu trac beics.
5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – wedi derbyn prisiau aros mwy o wybodaeth.

Troiad Gelligyffwrdd - Derbyniwyd llythyr yn datgan fod asesiad wedi ei wneud, ac er nad oes cyfiawnhad am newidiadau sylweddol i'r groesffordd, mae'n ymddangos fod modd gwella'r arwyddion a marciau ffyrdd er mwyn gwella'r wybodaeth i yrrwyr o'r trafnidiaid traffig wrth agosau at y groesffordd.

Goryrru ac arwyddion 20mya Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn datgan nac ond o flaen yr ysgol yn unig mae'r parthau yma yn cael eu rhoi, ac ni allent ystyried y cais o flaen y cae chwarae. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr heddlu yw gorfodi cyfyngiadau cyflymder a thrin a materion o yrru'n beryglus neu ddiystyriol. Mae cais bellach wedi cael ei roi i gael parthed 20mya o flaen yr ysgol.

Gohebiaeth a materion eraill

Cais Seindorf Ieuencid Deiniolen – Yn flynyddol, mae'r band yn arfer cystadlu mewn cystadleuaeth i fandiau pres yn y Drenewydd. Daeth cais gerbron unwaith eto eleni, ac fel yr arfer, penderfynwyd gyfranu swm o £150 tuag at gostau bws i'r Drenewydd. Dymunwn yn dda i'r ieuencid yn y gystadleuaeth ar 1 Ieg o Fehefin.

Coed Afalau – Mae yn bosib, os yn llwyddianus yn ein cais y cawn ychydig o goed afalau i blannu am ddim. Penderfynwyd os y byddwn yn llwyddianus y buaswn yn dosbarthu un i bob ysgol gynradd yn yr ardal, lle bydd plant yr ardal yn eu plannu, a cymeryd gofal ohonynt.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tir ger Gorswen, Brynrefail – Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi wyth ty fforddiadwy (1 par, a 2 deras o dri) ynghyd ag addasu mynedfa bresennol.

Buarth y Braich, Dinorwig – Codi modurdy newydd.

Tir ger Teras Fictoria – Diwygio amod 20 o ganiatad cynllunio presennol ar gyfer datblygiad preswyl er mwyn ymestyn y cyfnod o 3 blynedd er mwyn galluogi cyflwyno cais caniatu materion a gadwyd yn ôl.

2 Stryd Wesle, Rhiwlas – Ffenestr gromen mewn llofft gefn llawr cyntaf

Fferm Ty Mawr, Llanddeiniolen – Rhybydd ymlaen llaw i godi estyniad i adeilad amaethyddol presennol.

O Gwmpas y Bwrdd

Lon ger Mynedfa Fferm Ty Mawr, Llanddeiniolen – Mae y tar mac anti skid yn gwisgo i ffwrdd, ac angen wi adnewyddu cyn i ddamwain ddiwydd.

Rhiwlas – Angen llenwi tyllau yn y lôn i fyny at hen sgwar y post.

Penisarwaun – Angen llenwi tyllau yn lon Cae Hywel, Penisarwaun.

6. Gwefan y Cyngor Cymuned – ar y gweill.

Gerddi Bach – Bu i Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig ddod i'r cyfarfod i drafod canlyniadau yr holiadur ynglyn â'r angen. Angen trefnu pnawn agored yn y pentref yn fuan.

Safle Glyn Rhonwy – wedi derbyn hawl cynllunio. Dim mwy o wybodaeth ar hyn o bryd.

Aelodau'r Cyngor Cymuned – yn dilyn i gyfnod ddod i ben yn ddiweddar roedd 5 sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Bu i ni hysbysebu y seddi gwag yn y siopau lleol a'r Herald. Wedi derbyn 5 enw newydd, a bu i'r 5 gael eu cyfethol.

Archwiliad Allanol - Wedi derbyn yr adroddiad gan yr Archwilydd mewnol, dogfennau wedi eu hanfon ymlaen at yr Archwilydd Allanol rwan. Aros ymateb.

Adroddiadau

1. Lloches Bws - Siomedig iawn ein bod wedi gorfod ail beintio y lloches bws ger yr Hen Bost eto yn ddiweddar oherwydd graffiti.

2. Y Fynwent - Dal i aros ymateb gan berchennog y tir cyfagos ynglyn â phrynu tir a'r gyfer y dyfodol. Gwaith o adnewyddu y feinciau yn mynd i gael ei wneud yn fuan.

Llwybrau Cyhoeddus – Rhai llwybrau yn wlyb iawn ar ôl y gaeaf.

Materion Cynllunio

Estyniad un llawr cefn yn Nant, Waunfawr. Bu i aelod o'r Cyngor Cymuned adael y cyfarfod oherwydd diddordeb yn y cais.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais.

Dyddiad cyfarfod nesaf – 6 Medi 2017.



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau

### Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

#### Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo a gynhaliwyd Nos Fawrth 20fed o Fehefin 2017.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i griw Falcon Force o Ysgol Brynrefail. Cydymdeimlwyd a'r Cyngorydd Meryl Green ar ei phroffedigaeth diweddar, a diolchodd i'r Cyngorydd Goronwy Hughes am ei waith yn Cadeirio'r Cyngor dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ystyried cais am gymorth ariannol gan Falcon Force

Derbyniwyd cyflwyniad gan aelodau tîm Falcon Force o Ysgol Brynrefail ar eu llwyddiant diweddar yng nghystadleuaeth Fformiwla 1 i ysgolion.

Eglurodd y criw y gwaith maent wedi ei wneud ac egluro rhai o'r elfennau technegol a sut buont yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth. Eglurwyd, oherwydd eu bod wedi ennill y gystadleuaeth, eu bod nawr yn mynd ymlaen i gystadleuaeth i Ysgolion drwy'r byd, sydd yn cael ei gynnal yn Malaysia a bod angen iddynt godi £15,000 ar gyfer y daith. Eglurwyd nad oedd Falcon Force yn rhan o Gyngor Gwynedd ac roedd yn brosiect hollol ar wahân i'r ysgol.

Penderfynwyd:

- Diolch i'r aelodau am gyflwyniad mor dda;
- Llongyfarch y criw i gyd ar eu llwyddiant
- Cyfrannu £500 tuag at eu costau a dymunwyd yn dda iddynt yn y gystadleuaeth.

Mapiau Llwybrau Cyhoeddus

Yn dilyn cyfarfod mis Mai, adroddodd y Cyngorydd Berwyn Parry Jones, ei fod wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd am y mapiau ac eglurodd mae'n debyg bydd y mapiau perthnasol ar gael gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd i gysylltu a Mr Eurwyn Williams o Gyngor Gwynedd i geisio cael y mapiau er mwyn ein galluogi i wneud cais i gofrestru pedwar llwybr newydd.

Llenwi Sedd Wag ar y Cyngor

Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod fis Mai, i lenwi pedair sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Adroddwyd fod tri ymgeisydd wedi rhoi ei henwau ymlaen.

Penderfynwyd cyfethol Mr Clifford Williams, Mr Llywelyn Williams a Mr Martin Jones ar y Cyngor.

#### Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo a gynhaliwyd ar y 18fed o Orffennaf 2017

Cyfethol Mrs Haf Williams

Penderfynwyd i gyfethol Mrs Haf Williams fel aelod o'r Cyngor

Cyfrifoldebau disgyblion Ysgol Brynrefail

Croesawyd Mr Williams i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned a diolchwyd iddo am ddod. Eglurodd y camau mae'r Ysgol wedi ei gymryd i geisio cael y neges drosodd i'r disgyblion am eu cyfrifoldebau tu allan i'r ysgol ac i'r gymuned. Adroddodd ymhellach, ei fod heddiw gyda Swyddog Cyswllt Ysgolion o'r Heddlu, wedi siarad a disgyblion blwyddyn 9 a 10 i'w atgoffa o'i ymddygiad nawr gan ein bod ar drothwy gwyliau Haf.

Nodwyd gan Mr Williams byddai ef a'r Ysgol yn fodlon iawn i gyd weithio gyda'r Cyngor Cymuned ac pe byddai'r Cyngor yn dymuno cynnal cyfarfod ar y cyd gyda'r Heddlu, yna byddai yn fwy na pharod i fod yn rhan o'r cyfarfod.

Trafodwyd y posibilrwydd o rywun o'r Cyngor fynd i'r Ysgol i siarad a'r disgyblion ac i esbonio faint mae difrod yn ei gostio i'r Cyngor a'r effaith mae hyn yn gael ar y gymuned.

Penderfynwyd i gydweithio gyda'r Ysgol ac i wahodd y Prifathro i drafodaethau gyda'r Heddlu ac i wneud trefniadau ar ôl i'r tymor newydd gychwyn i rhywun o'r Cyngor fynd i'r Ysgol i siarad gyda'r disgyblion.

Llenwi seddau gwag ar y Cyngor

Nodwyd fod y seddi bellach wedi llenwi a croesawyd Martin Jones a Llywelyn Williams a Clifford Williams i'r Cyngor.

Diweddariad ar giât maes chwarae Pwll Moelyn

Cafwyd adroddiad byr ar y sefyllfa ddiwedddara a nodwyd nad oedd clo ar y giât. Nodwyd ymhellach fod y Cadeirydd wedi bod yn siarad ag aelod o elusen 'Back Up' ac eu bod wedi rhoi gwahoddiad iddo gysylltu a nhw am gymorth ar sut giât fyddai orau.

I ystyried cyfraniad gan y Cyngor tuag at dorri gwair Mynwent yr Eglwys Nodwyd fod cyfarfod wedi bod ar y safle gyda'r Cyngorydd Charles Jones. Ymddengys fod y broblem dorri gwair mynwent yr Eglwys yn fwy na'r hyn a dybiwyd yn gyntaf. Adroddwyd nad oes cais wedi dod i fewn gan yr Eglwys am gyfraniad i dorri gwair y fynwent eto. Cafwyd trafodaeth ar ble yn union sydd angen ei dorri a pha ran sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor. Ymddengys fod peth dryswch a bydd angen cadarnhad yn union yw'r ardal. Nodwyd ymhellach fod rhan o'r fynwent bellach wedi cael ei thorri.

Materion Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i gais Addasu'r adeiladau allanol ar gyfer 2 uned wyliau ynghyd ac offer trin carthion yn Cefn Llwyd, Cwm-y-Glo.

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i newid y geiriau ar y Co-op yn Llanrug

Roedd person arall wedi datgan diddordeb a gofynnwyd iddi anfon manylion amdani ei hun fel gall y Cyngor ystyried ei chyfethol yng nghyfarfod Gorffennaf. Giat Maes Chwarae Pwll Moelyn ac i ystyried dyfynbris a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod ar y safle.

Adroddwyd fod y brif giât wedi disgyn ac oherwydd natur brys y gwaith fe gysylltwyd a chwmmi lleol ac mae'r giât bellach yn ôl yn ei lle, ynghyd a mainc a oedd yn rhydd ond sydd nawr wedi ei gwneud yn saff. Cytunwyd a'r weithred.

Cais am barc sglefrio yn Llanrug

Adroddwyd fod deiseb wedi ei derbyn gan griw o bobl ifanc i geisio cael parc sglefrio yn Llanrug.

Penderfynwyd i'r Clerc a'r Cadeirydd gyfarfod a'r aelodau ieuentid i drafod cynllun o'r fath.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod y Cadeirydd wedi derbyn cwyn am gyflwr llwybr Gelliog ond fod contractwyr llwybrau'r Cyngor wedi torri'r llwybrau cyhoedus ers hyn.

Maes Parcio Cwm y Glo

Adroddwyd ar gyflwr y maes parcio yng Nghwm y Glo ac nad oes neb yn hawlio ei berchnogaeth a bod angen ychydig o waith trwsio arno. Adroddwyd ymhellach fod ambell i gar yn ei ddefnyddio i barcio yn rheolaidd.

Penderfynwyd i ymweld a'r safle pan yn archwilio'r parc sglefrio.

Materion Maes Parcio Llanrug

Adroddwyd yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn mis Mai, i geisio gwybodaeth am berchnogion cofrestredig y ceir gan y 'DVL A'. Er fod y Cyngor wedi anfon cais i'r 'DVL A' am y manylion nid oedd y wybodaeth wedi dod i law hyd yma

Ystyried cyfraniad gan y Cyngor tuag at dorri gwair Mynwent yr Eglwys.

Adroddwyd fod y Cyngor yn y gorffennol wedi bod yn cyfrannu tuag at dorri gwair yn fynwent Eglwys Llanrug. Adroddwyd ymhellach fod y Cyngor yn gyfrifol am dorri llecyn o'r fynwent yn unig. Yn dilyn y drafodaeth wedyn, ymddengys fod ansicrwydd ar leoliad y llecyn yma.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a threfnu i gyfarfod yn yr Eglwys i weld yn union ble mae'r llecyn yma.

Cyfrifon 2016-17

Adroddwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2016 / 2017 angen bod gyda'r archwilywyr allanol.

Penderfynwyd i awdurdodi'r Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo'r ffurflen ac anfon y wybodaeth berthnasol ar ôl derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnlol.

ffrynt ond fod angen gwneud sylw am newid i "Croeso i Coop Llanrug – Welcome to Llanrug's Co-op" a gwneud i ffwrdd a chyfeirnod at 'Station Road' gan nad oes ond yr un Co-op yn y pentref.

Cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwm y Glo, i drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymryd gofal o feysydd chwarae Cwm y Glo a Dolafon

Adroddwyd fod cyfarfod wedi'i gynnal yng Nghwm y Glo yn wreiddiol i drafod materion a dynnwyd sylw'r Cyngor atynt yn dilyn yr asesiad risg o'r Parc Sglefrio.

Nodwyd y gwaith roedd angen ei wneud ar y parc a'r angen i gael prisiau gan gwmnïau lleol fyddai yn gallu gwneud y gwaith.

Yn dilyn hyn, aethpwyd ymlaen i drafod y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd y cyfrifoldeb gan Gyngor Gwynedd o ofalu am y cae chwarae. Deallwyd nad oedd fawr o ddefnydd o'r cae ar hyn o bryd oherwydd ei gyflwr ac nad yw'r Ysgol Gynradd yn gallu ei ddefnyddio oherwydd y tyfiant. Nodwyd ymhellach petai yn dod oddi tan y Cyngor Cymuned yna y gobaith fyddai i'w gael i fyny i safon caeau chwarae s yn Llanrug.

Penderfynwyd:

- Hysbysu Cyngor Gwynedd o ddymuniad y Cyngor Cymuned i gymryd cyfrifoldeb o'r cae chwarae;
- i gysylltu a Chyngor Gwynedd ac i gychwyn trafodaethau ar gymryd y caeau chwarae drosodd.

c) Holi ein contractwr presennol am bris i dorri'r gwair.

d) Holi contractwr am bris i dorri'r coed yn y parc sglefrio

Adroddiad am ddigwyddiadau diweddar yn Llanrug.

Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau anffodus yn Llanrug yn ddiweddar sydd wedi bod yn gostus i'r Cyngor, penderfynwyd cysylltu a'r Heddlu ar frys i ofyn am fwy o bresenoldeb yn y pentref. Fe ofynir hefyd am ystadegau o achosion diweddar yn Llanrug a Chwm y Glo ac os yw'n bosib cael manylion o pryd mae'r heddlu wedi ymweld a'r gymuned.

Camau a ddylid eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n difrodi eiddo'r Cyngor

Yn dilyn adroddwyd fod y Gwasanaeth Tân wedi eu galw i Gae Chwarae Nant y Glyn oherwydd i fachgen fynd yn sownd mewn siglen ar gyfer baban a bu'n rhaid iddynt dorri'r siglen i'w ryddhau, penderfynwyd geisio cael manylion cyswllt y plentyn ganddynt fel y gellir anfon bil am y difrod.

Penodi cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug Adroddwyd nad oedd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol ers i'r cynrychiolydd blaenorol beidio a bod ar y Cyngor.

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Llywelyn Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd

## Un funud fach ...

### PHOENIX A RENO

Heno, ar nos Fercher braf ddiwedd Awst, mi wnes i rywbeth annisgwyl; rhywbeth eithaf brawychus. Echnos, roedd Donald Trump yn annerch torf yn Phoenix, Arizona; neithiwr, roedd yn annerch yr American Legion yn Reno, Nevada; a heno, mi wrandewais ar y ddwy araith. Pum munud ar hugain yn Reno ac awr a chwarter yn Phoenix: bron i ddwy awr o fytheirio, dyrchafu 'America', lladd ar y Wasg, dirmygu pob beirniad a beirniadaeth, a'i ganmol a'i gyfiawnhau ei hun. Ac wedi dwy awr o wyllo a gwranddo, y peth cyntaf sy'n taro dyn yw bod yr Arlywydd wedi treulio cyfran helaeth o'r amser yn sôn amdano ei hun.

Mae gan yr Arlywydd Trump feddwl mawr ohono'i hun. Fyddai o ddim yn gwadu hynny wrth gwrs. Mae'n ddim rhyfeddol o falch, ond mae hefyd yn rhyfeddol o ffôl. Mae'n dweud pethau gwirion; mae'n rhaffu celwyddau; mae'n anghyson; mae'n anghyfrifol; mae'n afresymol; mae'n anoddefgar. Gellid o bosibl oddef yr holl wendidau hyn. Wedi'r cwbl, does neb, hyd yn oed arlywyddion, yn ddi-fai. Ond gwaeth na'i falchder a'i annoethineb a'i dwpdra yw'r ffaith ei fod, oherwydd y nodweddion hynny, yn ddim peryglus. Mor arswydus yw hi fod yr Unol Daleithiau, a'r byd mewn rhyw ystyr, yn nwylo'r fath un.

Beth bynnag eich tueddiadau gwleidyddol, mi ddylai'r Arlywydd hwn eich anesmwytho. Oherwydd pwy a wŷr beth ddywed neu beth wnaiff nesaf? Gwrandewch arno. Edrychwch arno. Clywch o'n galw am undod er mwyn America a'i holl drigolion, ond gwyliwch o'r un pryd yn crechwenu a gwgu wrth edrych yn fileinig ar unrhyw un sy'n meiddio codi llais yn ei erbyn. Clywch y dorfyn udo wrth gymeradwyo a phorthi pob sylw cas. A chlywch ei gablu wrth iddo honni ei fod yn gwneud y cyfan 'er mwyn America ac er mwyn Duw'. Mae'n ddychryn fod Trump yn cael cefnogaeth cymaint o Gristnogion y wlad honno, yn cynnwys Franklin Graham, mab yr enwog Billy Graham, a oedd yn gweddio ar y llwyfan cyn iddo siarad yn Phoenix.

Wn i ddim beth oedd gweddi Franklin Graham y noson honno. Mae'n debyg iddo weddio dros yr Arlywydd a thros America. Roedd Mr Trump yn ddiolchgar iawn iddo beth bynnag (er nad oedd yn rhy sicr o'i enw, gan iddo ddiolch i 'Franklin Grym').

Go brin y byddai Mr Trump yn diolch i ni am awgrymu fod angen gweddio dros yr Unol Daleithiau. Ond gwnawn hynny, gan weddio dros Mr Trump ei hun, iddo ef a'r bobl sy'n ei gynghori gael doethineb nas gwelwyd ynddynt hyd yma. Gweddiwn am ras a doethineb i'r bobl sy'n ei wrthwynebu. Gweddiwn y daw sefydlogrwydd a chyfiawnder, ynghyd â heddwch a chymod, i'r wlad. Gweddiwn dros ei thrigolion tlawd a dirmygedig, yn arbennig y bobl sy'n cael eu sathru a'u herlid dan law galed yr Arlywydd. A gweddiwn dros holl gysylltiadau'r Unol Daleithiau a gweddill y byd, yn arbennig ei hymwneud presennol â gwledydd fel Gogledd Corea.

JOHN PRITCHARD

**POSH PAWS**  
  
**TACLUSO CWN**  
 Busnes Newydd Lleol  
**PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10**  
**DYDD SUL 8YB-4YP**  
 Gwasanaeth Casglu a Danfon  
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen  
 (01248) 671382 • 07935324193  
 ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

**SAMARIAID**  
 Mae  
**Llinell Gymraeg**  
**0300 123 3011**  
 ar gael bob nos  
 rhwng  
 7.00pm ac 11.00pm

**HUW OWEN**  
**PLASTRWR ADEILADWR LLEOL**  
 22 BLWYDDYN O BROFIAD  
 Ffôn- 01286 677668  
 Symudol- 07940023159  
 Gladwyn Station Rd.  
 LLANRUG, Caernarfon  
 LL55 4AG  
 Ebost- lisa.huw@btinternet.com

**WAVELL'S**  
 Bryn Ac Angela Williams  
**London House LLANRUG**  
**PEN CIGYDDION Y FRO**  
 YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS  
 SELSIG CARTRE  
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA  
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST  
**MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!**  
**(01286) 673574**

## Gweithiwr Newydd Cynllun Efe



Newyddion da! Mae Cynllun Efe wedi penodi Gweithiwr newydd. Bydd Catrin Ruth Hampton yn cychwyn ei swydd newydd fel Gweithiwr Plant, Ieuencid a Theuluoedd Efe ar Fedi 1af, 2017.

Mae hon yn swydd lawn amser mewn cydweithrediad ag Eglwys y Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon a mudiad Scripture Union. Bydd Catrin yn gwasanaethu Eglwys Caersalem am ddiwrnod a hanner yr wythnos, a bydd diwrnod yr wythnos yn cael ei neilltuo i genhadaeth trwy chwaraeon dan nawdd Scripture Union, gyda gweddill yr amser yn ardal Efe. Rydym yn cydnabod arweiniad Duw a chydweithrediad Caersalem a Scripture Union sydd wedi'n galluogi i fentro ymlaen yn hyderus i benodi Catrin i'r swydd hon am y tair blynedd nesaf. Edrychwch ymlaen at gydweithio â Catrin ac â'n gilydd i ddatblygu ymhellach y gwaith y bu Cynllun Efe yn ei wneud ers mis Hydref 2008 dan arweiniad ein Gweithiwr Ieuencid blaenorol, Andrew Settatree.

Daw Catrin yn wreiddiol o Lansannan. Mae ganddi brofiad o waith Cristnogol a chenhadol trwy ei chysylltiadau â Choleg y Bala, Y Gorlan yn yr Eisteddfod Genedlaethol a LLANW, yn ogystal ag yn yr eglwys y bu'n gysylltiedig â hwy. Mae wedi gweithio fel nani ac fel gweinyddydd, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Cydlynnydd Iechyd a Llesiant gyda Medrwn Môn. Mae'n croesawu'r cyfle newydd hwn i wasanaethu'r eglwys a Chynllun Efe yn enw yr Arglwydd Iesu, ac yn edrych ymlaen yn fawr at ddod atom ym mis Medi.

Mae'n briod â Corey ac yn byw yng Nghaernarfon ers blwyddyn a hanner. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn yr eglwys yng Nghaersalem ers symud i'r Dre.

Bwriedir cynnal Oedfa Gomisiynu ym mis Medi. Llongyfarchiadau gwresog i Catrin ar ei phenodiad, a dymuniadau gorau a phob bendith iddi yn ei gwaith.



# Ar ben arall i'r lein



Mae wedi bod yn rhyw ddau fis eithaf cymysglyd, pysgota ar y afonydd yn go siomedig ond y llynnoedd wedi bod yn eithriadol a dda - heblaw Padarn sy'n araf wella rhan ansawdd dŵr ond bod sefyllfa'r ocsigen toddedig yn y lefelau isaf yn gyndyn o wella. Hyd nes i hyn ddod ato'i hun, yna araf fydd pethau'n gwella, er bod rhai sy'n sgota'r glannau yn dechrau dod â brithyll hyfryd i'r rhwyd. 'Rwyf wedi rhoi rhyw dro bach arni fy hun, ond dim yn gwneud! Cawn weld sut bydd pethau yn ystod Medi, sef yr amser y bydd y torgoch yn dechrau casglu ym mhen ucha'r llyn.

Ar 14 Awst cefais wybodaeth fod cwmni 1st Hydro ar fin rhoi cais i Gyngor Gwynedd yn gofyn am yr hawl i ail drefnu rhediad dŵr a glannau Afon y Bala er mwyn gwella cynefin claddu a magu'r torgoch. 'Roeddem fel cymdeithas wedi deall rai blynyddoedd yn ôl y buasai gwaith fel hyn yn angenrheidiol os am weld y 'sgodyn hyfryd yma yn cynyddu'n naturiol unwaith eto. Wrth gwrs, 'rydym fel clwb yn croesawu pob ymdrech er lles y torgoch, ond eto mae siomedigaeth fod y cwmni, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd wedi esgeuluso trafod y cynllun ymlaen llaw gyda ni gan, wedi'r cwbl, y gymdeithas yw perchnogion yr hawliau pysgota ar y rhan yma o'r afon. 'Sgwn i be buasai ymateb 1st Hydro pe buasai'r gymdeithas yn rhoi cais cynllunio i adeiladu cwt cwch ar ei heiddo nhw, heb drafod yn gyntaf, wrth gwrs. Does eisiau gras yn does.

Gan fy mod ar gefn fyngheffyl, beth am hyn ta - cyn belled ac y gwn i mae pob llinell argyfwng yn golygu galwad di-dal (dim gyda ffôn symudol) i annog y cyhoedd i drosglwyddo gwybodaeth ar faterion difrifol i'r awdurdod perthnasol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru linell o'r fath, sef y rhif 03000 653 000. Mae'r corff yn hyrwyddo'r cyhoedd i roi gwybodaeth iddynt am unrhyw fater sy'n amharu ar yr amgylchedd, a dweud y gwir os nad yw gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo drwy'r modd yma braidd yn siomedig yw'r ymateb. Yn yr wythnosau diwethaf mae rhai o griw y Ddeorfa wedi gorfod defnyddio'r rhif 03000 i roi gwybodaeth o arllwysyadau di-reolaeth o waith carthffos Llanrug. Aelodau o'r cyhoedd yn gwneud eu dyletswydd drwy reportio cam weinyddu o bosib - be oedd y canlyniad -wel bil o bron i ddwy bunt am ddefnyddio ffôn y ddeorfa. Does dim rhyfedd fod rhai yn gyndyn o drosglwyddo gwybodaeth.

Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ar y peiriannau mawr yn yr afon ar y Finiog, dyma ran o'r cynllun adnewyddu cynefinoedd sy'n cael ei ariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel iawn am eu penderfyniad i atal stocio. Mae'n werth mynd i lawr am rhyw dro bach i weld y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud. Y cam nesaf yn y cynllun yw ar Afon Peris, ond mae rhyw rwystr bach fel mater o gael hawl gan adran atal llifogydd. Mae gwaith syml o geisio gwella cynefin yr afon yn debygol o gael effaith ar lifogydd 'medda nhw. Cawn weld be a ddaw o hyn i gyd.

Cefais olwg y diwrnod o'r blaen ar daflen sydd wedi ei dosbarthu i ardal Llanberis gan Dŵr Cymru dan y pennawd 'Newyddion Diweddaraf i Fforwm Padarn' yn clodfodi eu gwaith i wella gwaith carthffos ar sustem dŵr wyneb Llanberis. Hefyd yr arian sydd wedi ei ddosbarthu'n lleol fel iawn am y problemau llygredd sydd wedi bod fel pla arnom er dros bum mlynedd ar hugain. Dyma pwy sydd wedi cael peth o'r arian: Glanfa Padarn £11,000 - Cyngor Gwynedd mwyaf tebyg, Cynllun Caru ein Llyn £68,000. A manion eraill i bentref Llanberis. Gan mai gwybodaeth i Fforwm Padarn yw hyn i fod - mae'n beth rhyfedd nad yw'r Gymdeithas, sy'n aelod blaenllaw o'r Fforwm, wedi cael copi na gwybodaeth am unrhyw gynllun gan y cwmni. A rhyfeddach byth nad oes dim sôn am geiniog i'r Gymdeithas, sydd wedi dioddef fwyaf o'r problemau. Y gost i'n cynrychiolwyr i ddilyn yr achos drwy'r llysoedd oedd dros £300,000 a heb i hyn ddigwydd does dim dwywaith na fuasai dim wedi ei wneud heblaw hel esgusodion a chladdu pennau yn y tywod. Fodd bynnag mae'r ymdrech wedi bod werth chweil gan fod pethau ar dro am y gwell. 'Sgwn i a wnaiff DC dangos diddordeb mewn cyd-weithio â'r Gymdeithas er lles ein pysgodfeydd!!

Nid yn unig pysgotwyr sy'n gyfarwydd â'r niferoedd enfawr o eogiaid y Môr Tawel (eog pinc) sy'n rhedeg afonydd Gorllewin Canada. Mae'r rhaglenni diweddar ar Alaska ar y teledu wedi dod â gwybodaeth o'r wyrth yma i'r cyhoedd yn gyffredinol - yn enwedig sut mae'r eog yn gyfrifol am gynnal ffrwythlondeb y dyfroedd a'r bywyd gwyllt sy'n ddibynol ar hyn. Allwn ni ddim ond rhyfeddu at yr eirth, eryrod a hyd yn oed bleiddiaid yn dal a bodloni eu hunain ar yr eog yma. Cefais drip i Canada rhai blynyddoedd yn ôl i flasu'r sgota yno - gyda genwair wrth gwrs. Ond stori arall ydi honno.

Rhwng 1950 a 2003 'roedd cynllun ar waith ar Benrhyn Kola yng Ngogledd Rwsia i stocio'r afonydd gyda'r eog pinc yma. Dod â nhw i gynefin hollol wahanol i Fôr y Gogledd yn y gobaith y buasai'r 'sgodyn yma yn hoffi ei lle ac yn cynyddu'n sylweddol a felly creu pysgodfa rwydo i gynnal gwaith i'r boblogaeth leol. Fe ymgartrefodd rhain tu allan i phob disgwyl, ac yn awr maent yn lledaenu eu tiriogaeth drwy holl afonydd gogledd Ewrop. Eleni mae rhai yn cael eu dal yn afonydd De Cymru. Mae'r awdurdodau yn dweud eu bod fel chwyn ac eisiau eu difa i gyd. Os bydd rhai yn cael ei dal yma, yna difa fydd - ar ei hunion i'r badell.

Mae hen ddywediad pysgodfa lleol yn dweud bod rhaid cael dau li Awst i weld eogiaid yn ardal yr Eco - wel mae lli mawr ar ei ffordd, Gobeithio felly y bydd newyddion da mis nesaf.

Huw Price Hughes.



rhaglen amrywiol Gymreig gan Iona, y cyflwynydd medrus. Byddai'r ymwelwyr wrth eu bodd yn dyfalu enwau y gadwyn o alawon Cymreig a chwaraeai Glenys ar ei hoff offeryn, sef y ffidil. Gŵyr pawb am hoffter Glenys o gefnogi gwahanol elusennau lleol amrywiol a byddai'r Côr yn falch o gyfrannu'n hael bob blwyddyn yr arian Raffl a wnaed yn y Fictoria.

Byddai Glenys hefyd yn falch o roi cyfle i'r ifanc ymuno â ni i feithrin hyder. Manteisiai ar roi cyfle i'r offerynwyr y byddai'n cyfeilio iddynt yn eu arholiadau ac i gantorian ifanc - rhai sydd bellach yn gwneud enw iddynt eu hunain. Bu partneriaeth berffaith rhyngddi â'r cyfeilyddion medrus, Heulwen a Carys, yr is-gyfeilyddion.

Bu'r cinio yn Llanberis yn gyfle gwych i ddangos ein cydnabyddiaeth enfawr i Glenys, gyda diolch i Mrs Nansi Lovatt am gychwyn y Côr yn 1976. Anfonwn ein diolch a'n cofion atoch, Mrs Lovatt, a diolch i chi a Mair ac eraill am roi cymaint o fwynhad i ni. Rydym mor falch fod Glenys wedi gwella a byddwn yn cyfarfod yn rheolaidd i gymdeithasu o rŵan ymlaen, gan ddechrau nos Lun, Medi 12fed. Cyflwynwyd cywydd i Glenys gan Richard Llwyd Jones sy'n dweud y cyfan:

**I Glenys**

Daw i ben hir gyfnod bu i'r genod, wefr o ganu yn galonnog i Glenys, un hawlia'n bod o flaen bys. Troi llaw, creu Noson Lawen â llais, storiâu a'n llên. Encôr nos Iau Victoria chwysu'n daer i achosion da; yn glên â sawl mudiad gwlad a'r rhin ddaeth o'r arweiniad.

Hi fyfna i ni, fwy na neb undod ar sail ffyddlondeb; daw parch a nerth o berthyn o'i harwain hi, côr yn un. Rhannu'r wefr, rhoi inni'r hwyl anwesu cynnyrch noswyl. Glenys yn galw inni gario'r nos a'n gorau i.

Ond mae mwy i'r nodau mân o gofio'r alaw gyfan. Mor abl, hefyd mor hyblyg ei chôr â graen, Clychau'r Grug. Cresendo heno gaiff hi, broliwn ein Barbaroli! Richard Llwyd Jones

**Diolch Glenys** Wedi cyfnod hir a thu hwnt o hapus o dan arweinyddiaeth Mrs Nansi Lovatt, Mair Huws a Lowri Prys, a Glenys ein cyfeilydd, rydym niaelodau Côr Clychau'r Grug yn barod bellach i 'Hel Melys Atgofion'. Carem ddiolch i'r arweinyddion am roi cymaint o fwynhad i ni a chyfle i gymdeithasu am dros ddeugain mlynedd.

Bu Glenys yn ein harwain am flynyddoedd maith gan ein cyfoethogi gyda chaneuon ac alawon amrywiol a threfniadau cofiadwy. Bu'n wefr cael cyflwyno cyflwyniadau amserol ac addas a drefnwyd gan Glenys ei hun i'r gwahanol gynulleidfaoedd. Roeddem wrth ein bodd yn diddori ymwelwyr yng ngwesty'r Fictoria yn Llanberis gyda

**Merched y Wawr** Bydd y gangen yn ailgyfarfod nos Fawrth, Medi 12fed, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 gyda 'Hyder mewn Lliw' hefo Sonia Williams o Dregarth. Bydd nwyddau ar werth. Croeso cynnes i aelodau newydd. Mae rhaglen ddifyr ac amrywiol o'n blaen felly edrychir ymlaen at weld pawb.

**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED  
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED  
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

**Sion Roberts** ▶ **07759415753**  
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Medi**

3: Y Parch Marcus Wyn Ronbinson, Gweinidog, Gweinyddir y Cymun  
10: Mrs Nerys Griffith  
17: Y Gweinidog  
24: Y Barch Cath Williams.

**GERAINT OWEN  
CARPEDI**

**CARPEDI • VINYLS • TEILS**  
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS  
**A RHAI MEWN STOCK**

**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd**  
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd

**(01286)650552 Mob. 07712779475**

**grid** 76  
graphic design

**North Wales  
SIGNS**  
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalesigns.com  
grid76.co.uk | 07766956673



**Nanw**



**Nel**



**Gradd er anrhydedd** Ym mis Gorffennaf, derbyniodd Alan Lovatt, sy'n enedigol o Lanrug, radd Baglor Anrhydeddus yn y Gwyddorau gan Brifysgol Aberystwyth yn dilyn gyrfa gydol-oes yn ymwneud a bridio glaswellt. Rhoes dros ddeugain mlynedd o wasanaeth clodwiw yn y maes, ac ef yw'r Uwch-Fridiwr Glaswellt yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dechreuodd weithio yng Ngorsaf Bridio Planhigion Cymru (a oedd yn perthyn bryd hynny i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth), yna yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), a bellach yn IBERS. Dechreuodd weithio gyda rhygwellt Eidalaidd a chynhyrchu amrywiaethau arno. Bu'n gynullydd adran borthiant Cymdeithas Bridwyr Planhigion Cymru. Yn fwyaf nodedig, bu'n ymwneud â'r rhaglen bridio glaswellt uchel ei siwgr yn IGER. Mae'n fwy na thebyg fod nifer o ffermwyr y fro yn ddiolchgar iddo am ei waith arloesol ar hyd y blynyddoedd.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol.**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant ym Modedern: Leisa Gwenllian 1af Monolog, 1af Llfaru dan 16 oed; 1af Deilaog. Tomi Llywelyn: 3ydd Unawd Bechgyn 12-16 oed; Rachel Franklin: 3ydd Unawd Chwythbrennau (clarinet) 16 – 19 oed; Nanw Llwyd, 2il Unawd Chwythbrennau (ffliwt) dan 16 oed; Nel Gwilym., 1af Llfaru dan 12 oed; Idwal Williams, 1af Cyfansoddi Dawns Werin; Dion Jones ac Osian Land – Grwp Alfa, yn ennill Brwydr y Bandiau (gweler tudalen yr ifanc), Math Roberts, perfformio mewn amryw gystadleuthau. Nel Angharad Gwilym yn cael ei holi gan Nia Lloyd Jones ar Radio Cymru.

**Band Llanrug**



Dydd Sadwrn, Awst Sed, bu seindorf arian Llanrug yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fon, yng nghystadlu Adran 1 i fandiau pres, lle bu iddynt gael eu gosod yn y trydydd safle. Roedd hefyd yn ddiwrnod reit emosiol i'r band wrth iddynt ffarwelio a Paul Hughes eu harweinydd ers 9 mlynedd. Bydd Paul yn ymgartrefu a gweithio yn Norwy. Yn ystod ei gyfnod gyda'r band maent wedi eu dyrchafu drwy yr adrannau ac erbyn hyn yn chwarae yn yr adran gyntaf i fandiau pres. Dymunwn bob lwc i Paul yn ei fywyd newydd yn Norwy ac edrych ymlaen i ymweld ag ef yn Norwy y gwanwyn nesaf. Trosglwyddwyd yr

awenau i Mr Keith Jones ar y diwrnod. Mae gan Keith gysylltiad hir gyda'r band, ac wedi bod yn chwarae gyda hwy ers ei arddedau. Mae wedi chwarae ac arwain nifer o fandiau ar draws y Gogledd ac mae hefyd yn athro teithiol offerynnau pres yn Sir Conwy. Bydd Keith yn arwain y band yn Cheltenham ar Fedi 17 ym mhencampwriaeth bandiau pres Prydain. Dymunwn bob lwc iddo a'r band yn y gystadlu. Dydd Sul Awst 20ed bu Aled Williams, chwaraewr gyda'r band, yn beicio'r Tour De Mon. Bu nifer o aelodau yn stiwardio yn y ras hefyd i godi arian tuag at gostau'r daith i Cheltenham.

**Noson Wobrwyo Timau Llewod Llanrug.**



Aelodau gwahanol dimau oedran Llewod Llanrug yn dathlu eu llwyddiant mewn noson arbennig ar Gae Eithin Duon

# Parhad LLANRUG

**Dymuna Angela**, Nant y Glyn, ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am yr anrhegion a'r danteithion ar ddydd ei phen-blwydd yn 70. Cafodd benwythnos ddifyr yn Lerpwl a'r haul yn gwenu. Ym mis Chwefror cafodd Eifion, y gŵr, ei ben-blwydd yn 80 ac mae ef hefyd yn diolch am bopeth a gafodd – gwel hwyr na hwyrach! Longyfarchiadau i chi eich dau.

**Pen-blwyddi Arbennig** Longyfarchiadau i Enid Williams, 15 Rhos Rug, ar ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar ac i Nellie Cullen, Bro Rhyddallt ar ei dathliad hithau yn 80 oed.

**Diolchiadau** Fe dymuna Bethanne Williams, Idwal a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn eu profedigaethau yn cholli chwaer Bethanne a chefnder agos iawn iddi, bron ar yr un pryd, ym mis Gorffennaf.

**Priodas** Pob dymuniad da i Natalie Blanchard, Delwen, Ffordd yr Orsaf, ar ei phriodas yn ddiweddar. Deall eich bod wedi cael diwrnod arbennig yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth.

**Bedydd** Bedyddiwyd Tobi Alun, mab bach Iona a Tom ac ŵyr i Marueen Pierce, Bryn

Moelyn, yng Nghapel y Rhos gan y Parch Marcus Robinson. Bob bendith iddynt.

**Cofio** Cofiwn at Meryl Green, Pontrug, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar. Yr un modd cydymdeimlwn â Bethanne Williams, yn ei cholled hithau. **Marwolaethau** Mae wedi bod yn gyfnod trist yn y pentref gyda marwolaethau diweddar. Cofiwn yn ddiffuant iawn am y canlynol:

Teulu Mrs Nancy Hughes, Tal y Bont, a fu farw yn 91 mlwydd oed. Roedd wedi byw bywyd prysur iawn a chael bod yn annibynnol hyd y diwedd bron. Cafodd gefnogaeth hynod gan y plant a chofiwn amdanynt: Avril (Awstralia), Eleri (Canada), Ann yng Nghaernarfon a'r ddiweddar Betty. Bydd colled fawr i'w theulu a'i ffrindiau lu, yn enwedig 'teulu' Hafan Elan. Ar Awst 11eg bu farw Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan, ar ôl gwaeledd eithaf byr. Mi fydd colled heb ei gweld yn y pentref, hithau wedi bod yn annibynnol iawn gan fod y meibion yn byw yn bell oddi yma. Cofiwn a chydymdeimlwn â'r ddau, Arwel a Gerint, Linda, Sion a Sarah a'r gor-ŵyr, Robert John. Bu farw Catherine Jones,

Goppa Bach, Nant y Glyn yn 70 mlwydd oed. Brodor o Drawsfynydd ond wedi ymgartrefu yma yn Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant atoch fel teulu.

Yn sydyn iawn ar Awst 14eg bu farw Kathleen, priod annwyl Bryn Williams, Tan Rallt, Cwm y glo (merch Mr a Mrs Jones, gynt o Bonc, Llanrug). Cydymdeimlwn yn arw â chi fel teulu, Bryn, Marc a Lindsey, Andrew ac Ellen, Sandra a Dewi a'r wyrion a'r wyresau. Cofiwn hefyd am ei brodyr, John Alan a Dennis a'u teuluoedd.

**Canlyniadau Arholiad** Longyfarchwn bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn arholiadau'r ysgol a choleg. Pob dymuniad da i chi i gyd at eich dyfodol mewn unrhyw faes o'ch dewis.

**Damwain** Cafodd Ronnie a Doris Evans, 4 Ffordd Glanffynnon, ddamwain car yn ddiweddar. Mae'r ddau yn gwella yn araf. Cofion gorau atoch.

**Diolchiadau** Dymuna Enid Williams, Rhos Rug, ddiolch am bob caredigrwydd tuag ati ar ddatlu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Priodas** Dymunwn bob hapusrwydd i Bethan MacKinnon, Fferm Plas Tirion, a Sean Cartey o Belfast

ar eu priodas yn Eglwys Santes Helen, Caernarfon. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaer, lle mae'r ddau yn gyfreithwyr.

**Diolch.** Dymuna Megan Williams, Bron Eryri, ddiolch o galon i bawb fu mor garedig wrthi ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

**Diolch, ffarwelio – a chroeso** Dymunwn yn dda i John a Mary Roberts, Bedw Gwynion gynt sydd wedi symud i Gaernarfon i fyw yn ystod yr haf. Roedd John yn un o sylfaenwyr yr "Eco" a bu'n drefnydd hysbysebion am flynyddoedd; gwaith a fu'n gyfrifol am seiliau ariannol cadarn i'r babi newydd. Bu'r ddau hefyd yn gyfrifol am ddsbarthu'r "Eco" yn ardal Ffordd Glanffynnon. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt yn eu cartref newydd. Croeso i Cemlyn a Gwenan Jones, sydd nid yn unig wedi symud i Fedw Gwynion, ond wedi cytuno hefyd i barhau a swydd John a Mary, a derbyn cyfrifoldeb am ddsbarthu'r papur.

## Plaid Cymru

Ennillwyr Clwb Cant Gorffennaf 1-Phyllis Elis 2-Frank Green  
Awst 1-Iwan Roberts 2-Sion Humphreys



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076  
*neu*  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
williamshy@parliament.uk

## Taith Gerdded Archaeolegol

*Dinorwig: Cloddio Mynydd*


Taith ar hyd llwybr troed trwy ganol Chwarel Dinorwig. Cyfle i weld sut y cloddwyd llechi o'r chwarel drawiadol hon sydd yn ymestyn bron iawn at gopa Elidir Fach.

Pellter 4.5 km Tua 3 awr

Arweinydd: Dave Hopewell, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Mae'r daith yn rhad ac am ddim, ond mae archebu lle yn hanfodol. Cysylltwch efo Dan Amor: 01248 366970 neu dan. amor@heneb.co.uk

"RYDYM ANGEN MWY O  
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



**Siân Gwenllïan**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth,**  
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948  
**Swyddfa Etholaeth,**  
8 Stryd y Castell, Caernarfon,  
LL55 1SE  
(01286) 672076  
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

## DIOLCH FFYDDLONIAID

A hi'n edrych y buasai rhediad ddi-dor o dros 40 mlynedd o gynnal Tlws yr Eco yn dod i ben, daeth neges o Ddeiniolen. "Mi ffendia i dimau", meddai Lyndsey. Ac felly wele pedwar tim draw ar Gae'r Bwthyn yn cynnal traddodiad. Dau dîm o Ddeiniolen, ac un bob un o Lewod Llanrug a Llanberis. Diolch i'r rheolwyr a chefnogwyr am greu awyrgylch braf ar y noson. Diolch hefyd i'r rhai fu'n gyfrifol am y bwrdd lluniaeth – rhai da ydy 'cwn poeth' Deiniolen.

Y drefn oedd I bob tim wynebu y lleill ac yna'r ddau dîm uchaf yn ymladd am y Tlws. Y gêm fwyaf cyffrous oedd Deiniolen yn erbyn Llanberis. Roedd hi 3-0 i Ddeiniolen ar y troad. Wn i ddim beth ddywedodd Manon wrth hogia Llanberis hanner amser, ond am wahaniaeth. Deiniolen dan warchae, a'r sgor terfynnol yn 3-3 gyda Sam Williams yn rhwydo dwy i Lanberis. Ond mor agos bu ymdrech Lanberis i gyrraedd y ffeinal. Gwahaniaeth goliau Deiniolen un gôl yn well. Deiniolen yn gwarchod eu tiriogaeth yn erbyn Llewod Llanrug amdani felly. Gêm gystadleuol oedd hon. Y ddau dîm yn ymosod ond y gwahaniaeth oedd gallu Llanrug i droi'r cyfleoedd yn goliau. Roedd y sgor o 5-1 yn gamarweiniol o ran meddiant a chyfleoedd, ond goliau sy'n cyfrif. Y sgoriwyd i Lanrug oedd Cai Moss, Osian Williams(2), Owain Roden a Gwion Jones. Haydn Nisbett rwydodd i'r tim cartref.

Noson hwyliog, gystadleuol, gymdeithasol felly a diolch i bawb am roddi gwên ar wyneb y trefnydd. Diolch Lyndsey am gynnal y fflam, ac roedd y gymysgedd o barch a siom ar wynebau'r timau wrth dderbyn eu medalau yn dangos fod y gystadleuaeth 'bitw' yma yng ngholwg rhai yn dal i olygu rhywbeth i'r plant. Hir y parhaed hynny.

## COFIO 10 PELAWD

1969. Bangor v Morgannwg ar Dŷ Newydd. Gem dysteb i'r wicedwr a dyfarnwr rhyngwladol wedi hynny, David Evans. Hefyd, tymor ble cipiodd Morgannwg bencampwriaeth y Siroedd. Yn y gêm honno, a minnau mae'n debyg yn fatiwr 'ymosodol' sgoriais 2 rhediad tra'n wynebu 60 pêl, a daeth y ddwy rediad oddiar ochr y bat.

Beth oedd y rheswm, meddai chi. Wel, y ddau fowliwr yr oeddwn yn eu herio. Fe ellir dadlau fod y ddau ymysg y goreuon o'u math yn y gêm broffesiynol. Y ddau, sydd bellach wedi ein gadael oedd Don Shepherd a Tom Cartwright. Don Shepherd yw prif gymerwr wicedi Morgannwg gyda dros 2 100 o wicedi. Trodd o fod yn fowliwr cyflym i fod yn droelliwr penigamp. Gyda'r maeswyr wedi eu gosod yn gelfydd roedd yn rhaid brwydro am bob rhediad oddi arno. Felly, y diwrnod braf hwnnw. Y pen arall roedd Tom Cartwright. Roedd yn ddjarhebol am ei hyd a chyfeiriad ddiwuro. Os oeddech chi'n methu'r ergyd gyda'r bat yna roedd y bêl yn sicr o daro'r wicedi. Sylweddolais yn fuan wedyn nag batiad hesp oedd fy ymdrech ond ysgol brofiad amhrisiadwy. Nid taro pob pêl yw naws criced – fel yn arweinir ni i gredu wrth wyllo y T20 cyffrous ein dyddiau ni. Braf oedd gweld sawl teyrnged i'r diymhongar Shepherd. Barnodd rhywun mai ef oedd y bowliwr gorau na ennillodd gap rhyngwladol. Yr un oedd tynged ei gyfaill mawr Alan Jones. Dau o'r un brethyn.

Tynnwyd fy sylw at y Western Mail ar Awst 21. Hanner tudalen o deyrngedau i Colin Meads y cawr rygbi o Seland Newydd. Prin hanner colofn i gofnodi Don Shepherd. Ie, da yw ein 'papur cenedlaethol'. Rygbi yw'r duw yng Nghymru yn amlwg.

Mae gan Cartwright hefyd ei le mewn hanes. Oherwydd anaf ni allai deithio gyda charfan Lloegr draw i Dde Affrica. Yn ei le dewiswyd Basil D'olivera a dyna gam pwysig ymlaen i ddadfeilio 'apartheid'.

Braf fuasai darganfod y llyfr sgorio am y gem honno. Ildiais i'r pwysau yn y diwedd a cheisio bwrw Cartwright i gyfeiriad y gwli. Yn y llyfr sgorio bydd wedi ei gofnodi:

R.L. Jones daliwyd Don Shepherd bowliwyd Tom Cartwright.

A dyna'r diwrnod y daliais Roy Fredricks, agorwr India'r Gorllewin, a'r diwrnod y tarodd Majid Khan fi yn ol dros fy mhen i'r parc yn Nhy Newydd – rhyw 90 llath o ergyd. Ie, atgofion. Diolch amdanynt.

## RHEDEG MYNYDD



Cyrhaeddodd y tymor rhedeg mynydd ei benllanw yn y fro gyda Ras yr Wyddfa, ac Eidalwr ifanc aeth a hi. Lloegr enillodd y wobwr tim. Saesnes enillodd ras y merched, ond yn bedwaredd roedd y Gymraes leol ifanc o'r Waunfawr, sef Bronwen Jenkinson. Fis yn ddiweddarach, ac mewn tywydd echrydus, enillodd ras y merched yn Ras Maesgwm, Ras Pencampwriaeth Prydain. Roedd hwn y tro cyntaf erioed i ferch dan 23 oed ennill Ras Pencampwriaeth Prydain, ac yr oedd ei buddugoliaeth yn ddigon i ennill iddi Bencampwriaeth dan 23 oed Prydain am yr ail flwyddyn yn olynol. Camp yn wir. Yn yr un ras daeth tim merched Rhedwyr Eryri yn ail gyda'r dair aelod oedd yn cyfrif yn dod o'r fro, sef Bronwen, Miranda Grant o Lanberis, a Lou Beetlestone o Riwlus. Dyna i chi dim merched bro'r Eco yn ail drwy Brydain! Yn yr un ras, oedd yn cynnwys 182 o redwyr gorau gwledydd Prydain, daeth Gareth Hughes yn chweched a Mathew Roberts yn ail ar hugain.

Un arall o'r Waunfawr i wneud ei farc yn ystod yr haf oedd Llion Tegai, a fu'n cystadlu yn Ras Ultra Penrhyn Llyn – o Bwllheli ar hyd arfordir y de i Aberdaron a dilyn arfordir y gogledd i Nefyn, ac yn ol ar draws gwlad i Bwllheli. Llion oedd yr ail ddyn i orffen y ras hynod galed hon.

## MAE'R BÊL-DROED YN ÔL

Yn llechwraidd braidd sleifiodd y tymor yn ei ôl yn lleol. Aros yn yr un cynghreiriau mae Llanrug, Llanberis a'r Waunfawr. Beth tybed fydd eu tynged. Ai hon fydd y tymor bydd y Beganifs yn cael dyrchafiad i ymuno a'r ddau frawd mawr yng nghyngair yr Alliance. Neu, fel y llynedd byddent yn bodloni ar gipio ambell Dlws. Unwaith eto eleni, mae'n ymddangos mae'r Monwysion fydd yn rheoli Cynghrair Gwynedd. Y cwestiwn arall yw a fydd un o'r ddau 'mawr' yn disgyn. Cafodd Llanberis ddechrau trychinebus, yn colli eu dwy gêm gynghrair agoriadol gan gynnwys 8-0 gartref yn erbyn Conwy. Teg nodi bod carfan gref gan Conwy ac yn benderfynol i adennill eu lle yng Nghyngair Huws Gray. Caed gwell perfformiad yn erbyn Llandudno Albion o'r un adran yn rownd rhagbrofol Cwpan Cymru ond eto colli o 3-2. Gaeaf annodd i Lanberis mae'n ymddangos neu a welir y rhediad lewyrchus diwedd tymor unwaith eto. Cawn weld. Simsan fu dechrau Llanrug hefyd. Un gêm gyfartal yn y gynghrair a churo Penraeth o 4-2 wedi amser ychwanegol yng Nghwpan Cymru. Cafwyd rhediad anhygoel gan Lanrug ddiwedd y tymor diwethaf. A ddaw y rhediad tipyn yn gynt eleni a gweld Llanrug yn herio am y brig?

Edrychwn ymlaen i groniclo datblygiad Pêl-droed y merched, yn benodol tim merched Bethel. Gobeithir chwarae'r gemau yn ôl ar gae Coed Bolyn- tipyn o fantais iddynt. Yn yr un modd timau ieuenticid y fro. Dyma'r cyfnod dyngedfenol fel bod y traddodiad o bêl – droed yn yr ardal yma yn cael ei gynnal. Braf fuasai cael adborth o'r gwahanol oedrannau dros y tymor. Ymlaen a'r cicio – a'r sgorio gobeithio.

Beth bynnag a ddaw bydd digon o drafod ac edrych ymlaen at y gemau darbi.

Edrychwn ymlaen i groniclo gemau ieuenticid

# Chwaraeon

## Rhodri Slaven – Rhaglen Datblygu Slalom – Canw Cymru



Cafodd Rhodri gyfle i fynychu treialon ceufadu ym Mhlas y Brenin nol ym mis Hydref yn dilyn cystadleuaeth ceufadu 5x60. Cafodd Rhodri ei adnabod fel unigolyn gyda talent naturiol mewn ceufad (er iddo erioed gael gwerau yn flaenorol) ac mae erbyn hyn ar raglen ddatblygu potensial Slalom Canw Cymru ble mae yn ymarfer ac yn cystadlu gyda padlwyr o safon cenedlaethol. Llwyddodd Rhodri i ennill medal aur yn ei gystadleuaeth cyntaf ac yn wir mwynhau y weithgaredd. Mae Rhodri yn falch ei fod wedi cymeru y cyfle i drïo gweithgaredd newydd ac yn ymfalchio o'r cyfleuoedd sydd ar gael iddo. Da iawn Rhodri.

## Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn



Cafodd Llysgenhad Ifanc Arian Anna Whiteside Thomas gyfle i gynrychioli y Sir i gyflwyno a chroesawu Lowri Morgan ar lwyfan seremoni wobrwyo mis Gorffennaf yng Nghanolfan Hamdden Biwmares. Mae Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd yn recriwtio Llysgenhadon ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd felly os oes gennych chi ddiddordeb derbyn ffurflen gais – cysylltwch gyda Hannah Hughes – [hannahmedihughes@gwynedd.llyw.cymru](mailto:hannahmedihughes@gwynedd.llyw.cymru) neu ar Facebook 5x60 Brynrefail

## Ras Ieunectid yr Wyddfa 2017



Roedd dros 200 o blant yn cymryd rhan yn Ras Rhyngwladol Ieunectid yr Wyddfa gyda llawer o ddalgych Ysgol Brynrefail yn fuddugol. Roedd eleni y tro cyntaf i Tim Chwaraeon am Oes Gwynedd fod yn rhan o'r trefniadau ac mae'r Tim yn falch iawn o fod yn rhan o ddiwyddiad mor llwyddiannus. Hoffai'r Tim ddiolch i Bwyllgor Ras yr Wyddfa am y cyfle, Dr Zigs am noddi y ras ac i bawb am fynychu. Roedd elw'r ras yn cael ei gyfrannu i fenter Rhodd Eryri a Tim Achub Mynydd Aberglaslyn.

## Clwb Judo Segontium



Cafodd holl aelodau Clwb Judo Segontium gyfle i fwynhau 'Diwrnod Antur' gyda Chanolfan Awyr Agored Arete i orffen diwedd tymor llwyddiannus. Cafwyd llawer o hwyl yn cerdded ceunant Afon Ddu a gwneud crefftiau coedwig (cynnal tan, torri coed). Hoffai'r Clwb ddiolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth trwy'r flwyddyn. Bydd y clwb yn ail-ddechrau Nos Lun, Medi 11, 2017.

Byddwn pob amser yn croesawu aelodau newydd, ac os oes gennych chi ddiddordeb neu am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Hannah ar 07816316236 neu Facebook – Clwb Judo Segontium

## Grwp TGAU Addysg Gorfforol Brynrefail

Cafodd ddisgyblion blwyddyn 10 TGAU sydd yn astudio addysg gorfforol fwynhau 3 diwrnod o weithgareddau Awyr Agored ddiwedd y tymor yng nghwmni hyfforddwraig Hannah Hughes (Tim Chwaraeon am Oes) Cafodd 34 disgybl gyfle i gerdded llwybr arfordir yn Ynys Mon, Padlfyrddio wrth sefyll, canwio a cheufadu ar Lyn Padarn, Llanberis.

